

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 465 • Ebrill 2016 • 50c

Ynni Ogwen – Dros £100,000 mewn 4 wythnos!

Mae cynllun Ynni Ogwen yn mynd o nerth i nerth gyda dros £100,000 o gyfranddaliadau cymunedol wedi eu gwerthu mewn 4 wythnos! Mae'r cyfranddaliadau wedi eu prynu yn bennaf gan bobl lleol gydag un buddsoddiad anferth o £25,000 gan Grŵp Cynefin – y gymdeithas dai lleol a buddsoddiad pwysig o £5,000 gan Gyngor Cymuned Bethesda. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r sefydliadau hyn am fuddsoddi symiau sylweddol yn y cynllun ac am gredu yng ngeledigaeth hir-dymor Ynni Ogwen.

Meddai Walis George, Prif Weithredwr Grŵp Cynefin:

"Mae'n buddsoddiad ni yn y fenter arloesol yma'n rhan o'n gwaith i gefnogi cymunedau gogledd Cymru. Mae Ynni Ogwen wedi gwneud gwaith da iawn i sicrhau eu bod yn cyrraedd y garreg filltir sylweddol yma, ac edrychwn ymlaen i gydweithio er mwyn gweld y cynllun yma'n llwyddo er lles y gymuned leol."

Dyma ddywedodd y Cynghorydd Neville Hughes, Is-gadeirydd Cyngor Cymuned Bethesda:-

"Rwyn hynod falch bod Cyngor Cymuned Bethesda, wedi buddsoddi £5,000.00 yn y fenter gymunedol gyffrous yma. Mae hyn yn dangos mai nid drwy eiriau yn unig y mae'r Cyngor yn cefnogi Ynni Ogwen Cyf. Dymunwn bob llwyddiant i'r cynllun



gan wybod y bydd hynny yn dod a budd i'r gymuned yma yn Nyffryn Ogwen."

Mae busnesau a chymdeithasau lleol hefyd yn dangos diddordeb mawr yn y cynllun ac rydym yn parhau i drafod gyda nifer ohonynt sydd eisiau buddsoddi yn y fenter. Edrychwn ymlaen i roi sylw pellach i hynny yn rhifyn nesaf y Llais. Mae'r gefnogaeth yn hynod o gadarnhaol ac rydym yn hyderus y byddwn wedi cyrraedd y £160,000 angenrheidiol i ddechrau adeiladu'r cynllun hydro. Mae modd buddsoddi yn y fenter ar-lein, neu trwy lenwi'r ffurflen yn y prospectws a'i dychwelyd gyda siec i swyddfa Partneriaeth Ogwen ar y

Stryd Fawr. Cofiwch mai menter gymunedol bur yw hon ac y bydd eich buddsoddiad chi yn aros yn lleol ac yn gwneud gwahaniaeth yn lleol. Bydd pob cyfrandaliwr yn derbyn llog o rhwng 3% a 5% ar eu buddsoddiad yn flynyddol – gwell na llawer i gyfradd llog ar gyfrifon banciau'r Stryd Fawr! Mae modd i chi brynu cyfranddaliadau ar ran eich plant neu wyrion ond bydd rhaid i'r cyfranddaliad fod mewn enw oedolyn dros 16 oed. Mae modd i gymdeithasau, busnesau ac unigolion fuddsoddi a byddem yn falch o drafod gydag unrhyw un sydd a diddordeb. Yn ystod mis Ebrill, bydd Cyfarwyddwyr y Fenter yn hyrwyddo'r cynllun yn lleol, yn ymweld â busnesau, yn trafod gyda unigolion, yn cynnal diwrnod Ynni Gwyrdd gyda'r ysgolion lleol a Diwrnod Ynni Cymunedol yn Ffarm Moelyci. Mae llawer ar y gweill ac edrychwn ymlaen i weld y cynllun yma'n llwyddo, er lles ein amgylchedd a'n cymuned.

Am fwy o wybodaeth ewch i www.ynniogwen.cymru neu ffoniwch Meleri Davies, un o Gyfarwyddwyr Ynni Ogwen ar 01248 602131 neu galwch heibio'r swyddfa.



**"Mae Ynni Ogwen wedi
gwneud gwaith da iawn
i sicrhau eu bod yn
cyrraedd y garreg filltir
sylweddol yma."**

Panel Golygyddol

- Derfel Roberts**
☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn
☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn
☎ 07940 905181
dewision@hotmail.co.uk

Fiona Cadwaladr Owen
☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Siân Esmor Rees
☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com

Neville Hughes
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi a Morgan
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

Swyddogion

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Dewi Llewelyn Siôn

Y golygydd ym mis Mai fydd
Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW.
☎ 01248 601592.
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher,
4 Mai, os gwelwch yn dda.
Plygu nos Iau, 19 Mai,
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan
@Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths,
elgangriffiths@btinternet.com
Argraffwyd gan y *Lolfa*

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn
swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch
ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:

- Londis, Bethesda
- Siop Ogwen, Bethesda
- Cig Ogwen, Bethesda
- Tesco Express, Bethesda
- Spar, Bethesda
- Siop y Post, Rachub

Archebu
trwy'r
post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Dyddiadur y Dyffryn

- 2016**
Ebrill
- 16 Bore Coffi Cymdeithas Capel
Jerusalem. Cefnfaes. 10 .00 – 12.00.
 - 20 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.
5.00 – 8.00yh.
 - 23 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
 - 23 Noson Gomedi Eilir Jones a Hywel
Pitts. Neuadd Ogwen am 7.30.
 - 27 Cyfarfod Chwarter Annibynwyr
Gogledd Arfon. Capel Bethlehem
Talybont am 7.00.
 - 28 Merched y Wawr Bethesda. Cefnfaes
am 7.00.
 - 30 Bore Coffi Eglwys Sant Cedol Pentir.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00
 - 30 Sêl Pen Bwrdd. Llys Dafydd (Neuadd
Ogwen os yn glawio) am 9.30.
 - 30 Pesda Roc 2016: Er Cof am Les.

- Mai**
- 01 Pesda Roc 2016: Er Cof am Les.
 - 05 Etholiad Llywodraeth Cymru.
 - 07 Bore Coffi Neuadd Talgai. Cefnfaes .
10.00 – 12 .00.
 - 09 Merched y Wawr Tregarth. Susan
Peters. Festri Shiloh am 7.00.
 - 14 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.
9.30 – 1.30.
 - 14 Bore Coffi Cymorth Cristnogol.
Cefnfaes 10.00 – 12.00.
 - 19 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.
 - 21 Bore Coffi Gorffwysfan. Cefnfaes.
10.00 – 12.00.
 - 28 Bore Coffi Clwb Peldroed Mynydd
Llandygai. Caffi Coed y Brenin.
10.00 – 12.00.

- Mehefin**
- 13 Darlith Goffa Dafydd Orwig yn
Llyfrgell Bethesda.

Clwb Cyfeillion
Llais Ogwan

- £30.00**
(32) Blodwen Dignam,
Ffordd Stesion, Bethesda.
- £20.00**
(123) Dilys Jones, Pencilan,
Cefn y Bryn, Bethesda.
- £10.00**
(64) Rita Bullock,
8 Maes y Garnedd, Bethesda.
- £5.00**
(166) Dafydd Rowlands,
3 Tan y Garth, Rachub.



Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ 600192

Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth
☎ 601544

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau
Ebrill
17 Boreol Weddi
24 Cymun Bendigaidd

Mai
1 Boreol Weddi
8 Cymun Bendigaidd
Bob gwasanaeth am 9:30

Cynhaliwyd 6 Cinio Grawys llwyddiannus iawn bob dydd Iau yn ystod y Grawys. Diolch yn fawr i bawb a fu wrthi'n brysur yn coginio ac hefyd i bawb a gefnogodd pob wythnos.

Capel Shiloh, Tregarth

Gwasanaeth am **5.00** oni nodir yn wahanol
Ebrill 10 Gwynfor Williams, Caernarfon
Ebrill 17 Glyn Owen, Llanwnda
Ebrill 24 Philip Barnett
Mai 1 Oedfa Sacrament
Mai 8 W.R Williams, Y Felinheli
Mai 15 Oedfa Deulu Cymorth Cristnogol am 10.30 yng nghwmni plant a ieuenctid Shiloh a siaradwr gwâdd.

Oedfa fendithiol

Bore Sul, Mawrth 20, sef Sul y Blodau, cafwyd oedfa Deulu yng nghwmni rhai o blant a ieuenctid Shiloh. Cymerwyd rhan gan Huw Morris Jones, Ifan Rhys, Myfi Celyn, Nel Mai, Gwenno Roberts a Iestyn Roberts. Roedd y gwasanaeth ar y thema 'Y Beibl'. Cafwyd cyfeiriad at gyfieithiad William Morgan [1588] a'r cyfieithiad o'r Beibl Cymraeg Newydd [1988] ymlaen i'r cyfieithiad diweddaraf sef Y Beibl. net[2015] Yn dilyn gwaith graenus yr ieuenctid cafwyd cyfle i groesawu Delyth Wyn Davies, Chwilog, sef Cydlynnydd Dysgu a Datblygu yr Eglwys Fethodistaidd. Cyflwynodd hanes Sul y Blodau drwy gyfrwng llun a stori a chafodd pawb o'r gynulleidfa gyfle i gyfrannu gweddi a llun o arwyddocad y Pasg i ni heddiw yn yr unfed ganrif ar hugain. Diolchwyd i Delyth am ei chyflwyniad ffres a naturiol a mwynhawyd paned a Bynsan y Pasg heb anghofio wyau Pasg i bawb o'r plant a'r ieuenctid.

Cwblhau hanner Marathon

Llongyfarchiadau i Nia Hughes, Tyddyn Dicwm Bach, a lwyddodd i gwblhau Râs Hanner Marathon y Byd yng Nghaerdydd, Dydd Sadwrn, Mawrth 26, mewn amser ardderchog o ddwy awr ac undeg tri munud.

Clwb 100 Canolfan Tregarth		
Mis Mawrth		
28	Laura Jones	£15
39	Anna Jones	£10
15	Buckley Wyn Jones	£5

Pentir

Anwen Thomas, Min yr Afon,
11 Rhydygroes, Pentir
☎ 01248 355686

Eglwys St. Cedol, Pentir
Clwb 100 - Mis Chwefror

1af Rhif 42 Helen Burbrage, Rhiwlas
2ail Rhif 12 William Williams
Llanfairfechan
3ydd Rhif 53 Pam Jones
Llanddeiniolen

Clwb 100 - Mis Mawrth

1af Rhif 40 Nesta Barton, Rhiwen
2ail Rhif 45 Myra Jones, Waun Pentir
3ydd Rhif 33 Nia Roberts, Rhiwlas

Hwyl yr Wyl, Pasg

Prynhawn Sadwrn 26 Mawrth yn Y Ganolfan, Glasinfryn cafwyd prynhawn o wahanol weithgareddau, gan gynnwys helpa wyau Pasg a gêm o Fingo. Cafwyd prynhawn hwyliog a llwyddiannus er gwaethaf y tywydd. Diolch i bawb am eich cefnogaeth.

Sel Blanhigion

Bydd Sêl Blanhigion yn cael ei chynnal yn Eglwys St. cedol, Pentir Dydd Sadwrn 16 Ebrill rhwng 10yb a 4yp, Bydd lluniaeth ysgafn yn ystod y dydd. Croeso cynnes i bawb.

Bore coffi

Bydd Eglwys St. Cedol yn cynnal Bore Coffi yn Canolfan Cefnfaes bore Sadwrn 30 Ebrill.

Garddwest

Bydd ein Garddwest flynyddol yn cael ei chynnal eleni ar brynhawn Sadwrn 28 Mai am 1.30yp yn Y Ficerdy, Pentir. Bydd amrywiol stondinau a chystadlaethau i blant ag oedolion. Y gystadleuaeth i blant yw creu ac addurno mwgwd allan o unrhyw ddefnydd, ac i oedolion yw ffotograff dan y pwnc Golygfa. Bydd y cystadleuaeth yn cael ei beirniadu ar y diwrnod. Mae croeso cynnes i bawb

Gwasanaethau'r Sul

Sul cyntaf – Cymun Pawb
2ail Sul – Boreol Weddi
3ydd Sul – Cymun Bendigaidd
4ydd Sul – Boreol Weddi
5ed Sul – Gwasanaeth ar y cyd, lleoliad i'w gadarnhau
Bydd y gwasanaethau am 9.45yb. Mae croeso i chwi ymuno yn y gwasanaethau.

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini

01248 602 260 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk



Rhoddion i'r Llais

£300.00 Cyngor Cymuned Pentir
£200.00 Cyngor Cymuned Llandygai.
£400.00 Cyngor Cymuned Bethesda
£100.00 Cyngor Cymuned Llandygai
£5.00 Llewela O'Brien, Bangor.
£5.00 Norma Griffiths, Abergaseg, Bethesda.
£14.50 Hugh, Llanfairpwll.
£10.00 Raymond a Carol, 13 Rhos y Coed, Bethesda, er serchog gof am Margaret Jane Tomlinson.
£10.00 Tom a Karen Williams, Hen Barc.
£10.00 Elfed Bullock, Maes y Garnedd, Bethesda.
£10.00 Bessie Buckley, Maes Ogwen, Tregarth.
£10.00 Joe Evans, 10 Glan Ffrydlas, Bethesda.
£8.00 Don Hughes, Halifax.
£500.00 Clwb Cyfeillion Llais Ogwan.

Diolch yn fawr

EGLWYS UNEDIG BETHESDA LLENWY'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r gloch a hanner dydd

YN EISIAU GWIRFODDOLWYR!

Mae Neuadd Ogwen angen mwy o wirfoddolwyr i helpu yn ystod ein digwyddiadau.

Eich neuadd chi yw hon!

Am ragor o wybodaeth: Cysylltwch ag Owain ar **01248 208 485** neu **07442 532 746**
owain@neuaddogwen.com
neu gyrrwch neges drwy dudalen Facebook y Neuadd

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau yng Nghanolfan Gymdeithasol Tregarth bob nos Fercher 6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦
Manylion gan Jake neu Elena Fitzpatrick - 01248 602416 neu galwch heibio'r dosbarth



Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☎ 601592

Joe Hughes,
Awel y Nant,Ffordd Ffrydlas,
Bethesda ☎ 601902

Yr Eglwys Unedig Bethesda

Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd
Cynhaliwyd y cyfarfod yn y festri gydag aelodau o eglwysi'r cylch yn cymeryd rhan. Cafwyd anerchiad ardderchog gan Elina Owen. Cyfeiliwyd gan Helen Williams. Diolch i Ceri am y trefniadau. Gwnaed casgliad o £60, diolch i bawb.
Y Parch Eifion W. Williams oedd yn ein gwasanaethu Mawrth 7fed a chafwyd dwy oedfa fendithiol iawn.

Y Gymdeithas
Cafwyd cyfarfod dathlu Gwyl Dewi ar 10fed o Fawrth. Croesawyd pawb gan Joe ein llywydd. Cydymdeimlwyd â theulu Mrs Eirian Prithchard a oedd yn gyn aelod. Dymunwyd yn dda i Mark mab Julie oedd wedi dod gartref o'r ysbyty ac hefyd i Eileen Evans ar ôl ei thriniaeth.

Croesawyd Pedwarawd y Fenai atom a chawsom noson o gerddoriaeth amrywiol ac amserol iawn. Parti proffesiynol iawn. Diolchwyd iddynt gan Rhiannon ac i ferched y tē. Noson ardderchog a phawb yn canmol y parti.
Daeth Anna Jane Evans atom fore Sul Mawrth 13eg a chafwyd sgwrs efo'r plant ac oedfa ardderchog yn ei chwmni.

Sul y Pasg. Daeth y Parchedig Trefor Lewis i'n gwasanaethu a chawsom ddwy oedfa Basg arbennig ganddo. Diolch i bawb sy'n ein gwasanaethu, rydym yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau yn fawr.
Mae'r Ysgol Sul yn dal i fod yn brysur, ac yn cael aelodau newydd, croeso iddynt. Cynhelir y Clwb nos Fawrth yn rheolaidd. Croeso i bawb atom ar fore dydd Iau am baned a sgwrs, ac hefyd i'r oedfaon.
Bydd Sasiwn Chwiorydd y Gogledd yn

yr Eglwys Unedig dydd Mercher, Mai 4ydd, a bydd yr aelodau yn brysur yn paratoi amdani.
Gwasanaethau
Ebrill 17 10:00 Trefniant Mewnol
5:00 Y Parch. W.R. Williams
Ebrill 24 10:00 Trefniant Mewnol
5:00 Mr. Gwilym Williams
Mai 1af 10:00 a 5:00 Y Parch. R. O. Jones
Mai 8fed 10:00 a 5:00 Ms Karen Owen
Mai 15fed 10:00 Oedfa Deulu
5:00 y Parch Marcus Robinson

Eglwys Crist Glanogwen

Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:
Sul Cyntaf pob mis – Boreol Weddi Cymraeg – 11.00am
Ail Sul pob mis – Cymun Bendigaid Cymraeg – 11.00am
Trydydd Sul pob mis – Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am
Pedwerydd Sul pob mis - Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am
Pumed Sul - Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Pentir (Lleoliad i'w gyhoeddi)
Pob bore Mercher am 10.30am – Cymun Bendigaid

Sul, Ebrill 17, Pedwerydd Sul Y Pasg, Cymun Bendigaid, 11.00am
Sul, Ebrill 24, Pumed Sul Y Pasg, Cymun Bendigaid, 11.00am
Mae yna nifer o aelodau yn cwyno oherwydd amrywiol anhwylder. Dymunwn adferiad llwyr a buan i chwi gan fawr obeithio y byddwch cyn hir yn medru mynychu rhai o'r gwasanaethau.

Pobol Ddiolchgar

Dymuna Jean Thomas, 39 Abercaseg, a ddathlodd ei phenblwydd yn 60 mlwydd oed ar 9 Mawrth, ddiolch o galon i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar yr achlysur hapus.
Dymuna Raymond Tomlinson, 25 Erw Las, ddiolch yn fawr iawn am y galwadau ffôn, cardiau a phob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ato yn dilyn ei ddamwain yn ystod mis

Ionawr eleni. Mawr ddiolch hefyd i staff wardiau Conwy a Tegid, Ysbyty Gwynedd, am eu gofal diflino.
Mae Llewela O'Brien, Craig Menai, Bangor Uchaf, yn ddiolchgar iawn i bawb am eu caredigrwydd, a'r cardiau, pan fu'n derbyn triniaeth law-feddygol yn Ysbyty Gwynedd.
Dymuna Margaret Jones o Bant Glas, Bethesda, ddiolch o galon i bawb am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati tra yn yr ysbyty yng Ngobowen, ac wedyn yn ystod ei thriniaeth ychwanegol.

Priodas Aur

Ar 5 Mawrth dathlodd Dafydd Gwilym a Margaret Jones, Pant Glas, eu priodas aur. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chi.

Ysbyty

Cofion cynnes at bawb ohonoch a fu'n yr ysbyty yn ddiweddar. Da deall eich bod yn gwella.
Daeth yr enwau canlynol i sylw'r Llais:- Mr. Bert Hughes, Stryd John; Mrs. Nancy Owen, Bryntirion; Mr. Elwyn Roberts, Rhes Ogwen; Mr. Jim Amos, Glanogwen; Mrs. Mandy Lewis, Lôn Sarnau.
Mae Mrs. Margaret Parry, Maes y Garnedd, yn yr ysbyty ers penwythnos y Pasg. Brysiwch wella.

Marw

Mrs. Annette Elizabeth Morris
Ar 26 Chwefror, yn sydyn yn ei chartref yn 40 Stryd Fawr, bu farw Mrs. Annette Elizabeth Morris yn 77 oed. Gwraig dawel a pharchus a fu'n rhedeg y Siop Lyfrau Ail-law ers blynyddoedd. Bu ei hangladd yn Amlosgfa Bangor brynhawn Llun, 14 Mawrth. Cydymdeimlwn â'i theulu â'i chymdogion yn eu profedigaeth.

Mrs. Eirian Pritchard
Yn Ysbyty Gwynedd ar 1 Mawrth, bu farw Mrs. Eirian Pritchard, 18 Rhes Elfed, gynt o Bryn Hafod y Wern, Llanllechid, yn 89 mlwydd oed. Priod annwyl y diweddar Mr. Amwel Pritchard, mam a mam yng nghyfraith annwyl i Gareth a Janet, a nain hoffus i Bethan, Sioned, Iwan a Heledd.
Bu'n athrawes uchel ei pharch yn Lerpwl, Amlwch a Bethesda, ac yn aelod ffyddlon a



Pedwarawd y Fenai yng nghymdeithas Jeriwsalem.



Darlith Goffa Rhiannon Rowlands - Dyma lun o'r Dr. Dafydd Roberts, y darlithydd eleni, gyda Arthur Rowlands ar y dde iddo. Cyflwynwyd darlith hynod o ddiddorol i'r Gymdeithas Hanes ar y testun "Dros Ryddid a Thros Ymerodraeth" oedd yn ymdrin ag ymatebion i'r ymgyrch recriwtio yn Nyffryn Ogwen.

gweithgar o Gapel Carmel, Llanllechid, lle bu'n athrawes Ysgol Sul.

Cynhaliwyd ei hangladd ar fore Sadwrn, 5 Mawrth, gyda gwasanaeth yng Nghapel Carmel a Mynwent Coetmor. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog, y Parchedig John Pritchard, y Parchedig Dafydd Coetmor Williams, ei chyn-weinidog, y Parchedig Geraint S. R. Hughes a Mrs. Mary Jones. Mrs. Helen Wyn Williams oedd wrth yr organ.

Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich colled a'ch hiraeth.

Mr. Dafydd Ellis Jones

Ar 27 Mawrth yn Ysbyty Gwynedd, yn 95 oed, bu farw Mr. Dafydd Ellis Jones, Korn-an-Oaled, 4 Rhos y Coed. Priod Mrs. Mari Annick Jones, tad Robert Henri ac Anne, a thaid Nic, Tommy a Davey. Cyn ymddeol bu'n brifathro yn Ysgol Pen y Bryn a Bodfeurig.

Bu'r gwasanaeth angladdol yn Amlogfa Bangor ar ddydd Llun, 4 Ebrill.

Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar, yn eu plith mae:-

Mrs. Joan Griffith a'r teulu Glanffrydlas. Collodd Joan ei brawd yng nghyfraith, sef Mr. Ffranon Griffith, Talysarn, ar 28 Chwefror.

Mrs. Nancy Owen a'r teulu, Bryntirion, wedi colli chwaer a modryb ddechrau Mawrth.

Mrs. Glenys Rowlands a'r teulu, Adwy'r Nant, wedi colli chwaer yng nghyfraith a modryb, sef y ddiweddar Mrs. Jane Parry, Rachub.

Mrs. Jill Jones a'r teulu, Pant Glas / Braichmelyn, yn eu profedigaeth fawr o golli priod, tad a thaid annwyl, sef y diweddar Mr. Roger Jones.

Diolch

Dymuna Junior a Blodwen Dignam, Ffordd Stesion, ddiolch am y rhoddion a dderbyniwyd er cof am y ddiweddar Mrs Blodwen Gibbs, Yr Hen Aelwyd Rhoddwyd yr arian i Gronfa Nyrsys Cymunedol Bethesda, ac i'r Feddygfa. Diolch o galon i bawb! Fe fyddai y ddiweddar Mrs Gibbs wedi bod yn 100 oed ar Fawrth 18fed. Atgofion melyn amdani!

CYNGOR CYMUNED BETHESDA

Gwahoddiad i Dendro

am waith

Torri Llwybrau Cyhoeddus yr Ardal
(Pris fesul 100metr o lwybr)

Anfonwch eich cynnig at:

Donna Watts, Clerc y Cyngor,
Swyddfa Partneriaeth Ogwen,
Stryd Fawr, Bethesda.

Dyddiad Cau: 28 Ebrill 2016

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Dathlu'r 50 oed

Yn ystod mis Mawrth dathlodd Martin Hoyland, Gwernydd, ei benblwydd yn 50 oed. Rydym i gyd yn gyrru ein llongyfarchiadau iti, Martin, gan ddymuno'r gorau iti.

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo gyda David Môn Hughes, a Bethan Jones, Stryd y Ffynnon, yn eu profedigaeth o golli ewythr David, sef y diweddar David Arthur Jones, oedd yn trigo yn Nefyn.

Penblwydd 40

Dathlodd Heledd Selwyn, Pen Clwt, ei phenblwydd yn 40 oed ddechrau Mawrth. Llongyfarchiadau mawr iti, Helen, a dymuniadau gorau i'r dyfodol.

Nain a thaid

Llongyfarchiadau mawr i Mark a Karen Briggs ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganed mab bychan, Robin Huw, i'w merch, Helen, a'i chymar, Aled. Mae Robin yn frawd bach i Ela, Twm, a Llew, ac mae pawb wedi gwirioni efo'r bychan. Llongyfarchiadau lu i chi fel teulu.

Dathlu 21 oed

Llongyfarchiadau mawr i Mared Roberts, Ffordd Gerlan, ar ddathu ei phenblwydd yn 21 oed yn ystod mis Mawrth. Rydym i gyd yn gobeithio iti gael diwrnod i'w gofio, ac yn dymuno'r gorau iti i'r dyfodol.

Profedigaeth

Daeth newyddion trist iawn inni yn ddiweddar, pan glywsom am farwolaeth un o blant y pentref a hithau ond yn 40 oed. Roedd y ddiweddar Sandra Roberts bellach yn byw yn Llangefni, gyda'i merch, Akira, ond cafodd ei magu yn Stryd y Ffynnon, ac yma y bu'n byw tan yn weddol ddiweddar. Roedd yn ferch i'r diweddar Richard Roberts, a'i wraig Carwen, ac yn chwaer i Karen a Susan. Rydym yn cofio atoch i gyd fel teulu yn eich colled fawr, ac yn cydymdeimlo gyda chi yn fawr.

Carneddi

Derfel Roberts, Llys Artro, Carneddi
☎ 600965 hylaw@btinternet.com

Croeso

Mae Bleddyn Angharad ac Osian Emlyn wedi ymgartrefu yn Fron, Cilfodan. Croeso cynnes iddynt. Maent wedi setlo yn dda ac nid yw hynny yn syndod gan bod Bleddyn yn ôl yn ei filltir sgwâr, wedi ei fagu yn Nhregarth a mynychu Ysgol Dyffryn Ogwen. Croeso mawr ac i Twm a Siôn pan fyddant draw.

Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant,
Bethesda ☎ 600689

Anfonwn ein cofion at Miss Meriel Twigge 2 Cefn Cwlyn sydd heb fod yn dda. Gwellhad buan iddi.

Cydymdeimlwn â Mrs Jill Jones, 3 Pen y Graig a'r teulu Claire, Heather a Geraint a'r teulu yn eu profedigaeth o golli gwr, tad a thaid gwerthfawr iawn. Bu farw Roger Jones ar ôl gwaeledd byr, a bydd colled mawr ar ei ôl ar yr aelwyd. Roedd Roger yn aelod gwerthfawr o Dim Achub Mynydd Dyffryn Ogwen ers blyneddau maith. Diolch am ei waith clodwiw iddynt ar hyd y blyneddau.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard, Llais Afon,
2 Bron Arfon, Rachub LL57 3LW
☎ 601880

Capel Carmel

Trefn Gwasanaethau

Ebrill 17: Oedfa. (5.00).

Ebrill 24: Gweinidog. (Oedfa Fedydd) (3.15).

Mai 01: Gweinidog (Cymun). (5.00)

Mai 08: Mr. Dafydd Iwan. (5.00)

Mai 15: Cymanfa Ysgolion Sul. (Pendref am 10.30yb)

Yr Ysgol Sul am 10.30 yb.

Clwb Dwylo Pysur: Nos Wener am 6.30 yh.
Croeso cynnes i bawb.

Y Cleifion

Anfonwn ein cofion at ein haelodau sydd yn sâl gartref.

Colli Aelodau

Bu farw dwy aelod ffyddlon iawn yn ddiweddar, sef Mrs. Eirian Pritchard a Mrs. Jane Parry.

Cydymdeimlwn â'r ddau deulu yn eu profedigaeth.

Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid

Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghyfarfod mis Mawrth o Glwb Hanes Rachub yng nghwmni'r cadeirydd, Mr Dilwyn Pritchard. Peldroed yn Llanllechid oedd testun y sgwrs, a cafwyd hanesion di ri am hynt a helynt tim enwog y Llechid Celts yn ogystal a son am unigolion blaenllaw a thalentog a ddaeth o'r ardal. Gwelwyd erthyglau papur newydd yn rhoi hanes sawl sgarmes [o bob math!] a gafwyd yn y gorffennol, a chafwyd nifer o luniau diddorol i bori drwyddynt. Braf iawn oedd gweld ambell i gyn-beldroediwr yn y gynulleidfa! Diolch, Dilwyn, am yr holl waith ymchwil caled! Cofiwch am ein cyfarfod nesaf ar Nos Fercher. Ebrill 27 yn Festri Carmel, yng nghwmni'r Dr. J. Elwyn Hughes.

Cymwynaswyr

gan J. Elwyn Hughes

Dros y blynyddoedd, dwi wedi bod yn tywys nifer o unigolion a grwpiau o ddisgyblion a myfyrwyr, yn ogystal â bysieidiau o aelodau o amrywiol gymdeithasau o wahanol rannau o Gymru, i ddangos iddynt rai o ogoniannau Dyffryn Ogwen. Ac mae cyfoeth yr ardal yn syfrdanu pawb, gan gymaint o bethau sydd i'w crybwyll am wahanol feysydd: hanes, daeareg, daearyddiaeth, llenyddiaeth, cerddoriaeth, tafodiaith, diwydiant, ystyron enwau, cartrefi enwogion, a llawer mwy.

Mae'r daith fel arfer yn para rhyw ddwy awr a hanner ac yn dod i ben ym mynwentydd Coetmor. Ym Mynwent Goffa Robertson, ger y wal bellaf wrth i ni edrych i'r dde wedi mynd drwy'r giât i'r fynwent, gwelwn feddfaen Charles Donald Robertson, gŵr ifanc a laddwyd ar y Glyderau ym 1911. Yn ôl a ddeallwn, dywedodd ei rieni pe caniateid i'w mab gael ei gladdu yn wynebu lle cafodd ei ladd, y byddent yn rhoi arian i godi eglwys yn y fynwent. A dyna a ddigwyddodd. Cerfiwyd 'Erected in memory of Charles Donald Robertson, 1911' ar garreg o wenithfaen ar y chwith i ddrws yr eglwys.

Yn yr un fynwent, mae beddau Syr Idris Foster, Caradog Prichard, a Thomas Jarvis (Prifathro Caradog Prichard yn Ysgol Glanogwen ac a elwir yn Preis Sgwyl yn Un Nos Ola Leuad).

Dros y wal, yng Nghladdfa Coetmor (Claddfa a sefydlwyd gan yr Ymneilltuwyr ym 1902 ond sydd bellach yn perthyn i Gyngor Gwynedd), mae bedddfeini William Griffith (y bardd o Henbarc), Beti Wyn (merch fach y Parchedig J. T. Job), R. Lloyd Jones (Arfryn, Tregarth, awdur llyfrau i blant), Dafydd Orwig (darlithydd a gwleidydd), J. O. Williams (cydawdur Llyfr Mawr y Plant) ac R. Williams Parry (un o feirdd mwyaf Cymru).

Yn ystod y blynyddoedd diweddar hyn, bûm yn bryderus iawn ynghylch cyflwr bedd Bardd yr Haf, yn enwedig o weld dau lwyn mawr yn tyfu'n gryf o flaen y garreg ac yn cuddio'r sgwennu arni a'r cerfiad o'r Lôn Goed yr ysgrifennodd RWP amdani. Ni lwyddais i ddod o hyd i unrhyw berthynas agos iawn i'r bardd ond trwy gydweithrediad a chymorth Mr Bryn Hughes, Rheolwr Amlosgfa Bangor ac Arolygydd Mynwentydd Cyngor Gwynedd, torrwyd a diwreiddiwyd y llwyni ac roedd modd gweld y Lôn Goed unwaith eto. Ond daeth problem arall i'r fei yn sgîl hynny, sef bod y geiriau ar y garreg yn dangos ôl traul y tywydd ac yn ddigon agos at fod yn annarllenadwy.

Trwy gydweithrediad Mr Bryn Hughes uwaith eto, cefais ganiatâd i ymgynghori â chyfaill o fardd, Robin Hughes wrth ei enw, sydd hefyd yn drefnydd angladdau ar Ynys Môn. Mae ei awmni ef vn Llançefni. Robin Hughes a'i Fab, hefyd

yn arbenigo ar ysgythru llythrennau ar gerrig o bob math, gan gynnwys gwenithfaen fel yn achos y garreg ar fedd R. Williams Parry. Cofiw'n mai ei gwmni ef, hefyd, a ysgrythodd y manylion ar y coflechi a osodwyd yn ddiweddar ar dai pedwar ar ddeg o enwogion llên Dyffryn Ogwen.

Pan soniais wrth Robin am y broblem ynghylch carreg fedd R. Williams Parry, ei adwaith cyntaf oedd ei fod yntau wedi sylwi bod y garreg yn gofyn sylw a'i fod wedi bwriadu cael Robat, ei fab, i fynd i Goetmor i drin y garreg. Er i mi gynnig talu am wneud y gwaith, ni fynnai Robin hynny ar unrhyw gyfrif, a bellach mae'r arysgrif yn gwbl glir ar y garreg, fel sy'n amlwg yn y llun hwn ohoni.

Rai misoedd ynghynt, roeddwn wedi sôn wrth Robin fy mod wrthi'n paratoi sgwrs ar hanes y Rhyfel Byd Cyntaf yng nghyd-destun Dyffryn

Ogwen ond nad oedd modd tynnu lluniau'r ysgrifen ar y tair cofeb sydd wedi eu gosod o fewn adeiladwaith o friciau yn erbyn y wal ger sied y gweithwyr yn y fynwent; eglurais fod y paent du a lenwai'r llythrennau gynt ar y marmor gwyn wedi hen ddiplannu, fel sy'n amlwg yn y llun a dynnais yn 2015.

Mae'n briodol ychwanegu yn y fan hon mai un arall o gymwynaswyr y Dyffryn, sef y diweddar J. Kenneth Hughes, fu'n gyfrifol am osod y cofebau yn eu lle ar ôl cau Capeli Salem (Carneddi), Salem (Rachub) a Brynteg.

Ddiwrnod neu ddau cyn Sul y blodau, euthum i'r fynwent i roi blodau ar fedd fy mam a 'nhad ac aelodau eraill o'm teulu. Roeddwn wrth fy modd pan welais garreg fedd R. Williams Parry a'r ysgrifen arni'n gwbl glir a darllenadwy. Ond ni ddisgwyliwn yr olygfa arall a'm disgwyliai, sef sylwi - o bell - ar yr ysgrifen ddu ar gefndir o farmor gwyn y tair cofeb yn coffáu'r hogia' a gollwyd o'r tri chapel. Oedd, roedd Robin Hughes wedi trefnu i'r geiriau gael eu paentio'n ddu ar y cerrig hyn hefyd. A dyma nhw ar eu newydd wedd:



Diolch i Bryn Hughes, un o 'hogia Pesda' (mab y diweddar Raymond a Helena Hughes, Glanogwen) am ei ddiddordeb, ei hynawsedd a'i gydweithrediad parod ac i Robin Hughes am fod yn garwr y 'pethe' a chyfrannu mor ymarferol at ddiogelu ein hanes a'n treftadaeth. Mae'r ddau, Bryn a Robin, wedi gwireddu'r egwyddor a ddau i'r amlwg yn yr englyn a luniwyd gan Dîm Ymryson Beirdd Ardudwy yn y 1980au, dan y teitl 'Cymwynas':

Na fliner ei chyflawni - nid â gwg,
Ond â gwên ac egni;
Na chwyd arian amdani
Na dy lais i'w hedliw hi.





Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamsHY@parliament.uk


Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk





Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk

JR SGAFFALDIAU Cyf.
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NE
e-bost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)



Siân Gwenllian

Ymgeisydd Etholiad Cymru
5 Mai 2016

siangwenllian@yahoo.com
01286 672510
07775 642202
f SianGwenllianArfon
t @siangwenfelin



Llais newydd i ARFON
Llais cryf i'r Gogledd

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550karena@agoriad.org.uk*Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)*

Cinio arbennig bob dydd iau

Bwyd i'w gario allan

*Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)*Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

**BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)***Rydym yn croesawu partïon
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?*

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
LloriauArbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel

Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Ambwch Benllech
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782Caernarfon
(01248) 673616Pwllheli
(01758) 703000**Londis Bethesda**

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS**Paentiwr****Papurwr****Teilsiw****Symudol: 07747 628650****Ffôn: 01248 600995****Malinda Hayward
(Gwniadwraig)**Awel Deg
Penygroes, Tregarth.Am unrhyw waith gwnio
- trwsio, altro ac ati -**Ffoniwch**
01248 601164**Cerbydau Penrhyn****CABIAU A BYSIAU MINI****Ffôn: (01248) 600072****Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau****Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru**

Sefydlwyd

1969

**m.hughes
a'i fab****CONTRACTWYR TOI**

2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.

Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.

Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.**L. Sturrs
a'i feibion**

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR**Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda****Ffôn: 600953**lsturrs@googlemail.com**BARBWR OGWEN**Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison**TEMPLE MORRIS A'I FAB**Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.**07770 900531****01248 600282**jtemplemorris@btinternet.com**Ymgymmerwr adeiladu a
gwaith saer****Ronald Jones**Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

SAMARIAIDMac
Llinell Gymraeg**0300 123 3011**ar gweil bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Talybont

Neville Hughes,14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Eglwys St. Cross
Dathlwyd Gŵyl y Pasg gyda gwasanaethau dan ofal ein ficer, y Parchedig John Mathews, o nos Iau tan fore Sul y Pasg. Diolch i bawb a fu’n addurno’r eglwys mor hardd.
Dymunwn anfon ein cofion at Gracie Griffiths a ddathlodd ei phenblwydd ar y cyntaf o Ebrill. Cafodd de parti wedi ei drefnu gan staff Plas Ogwen. Roedd wedi mwynhau yr achlysur!

Capel Bethlehem
Oedfaon y Sul
Ebrill 17: Parchg. Emlyn Richards, Cemaes;
Ebrill 24: Gweinidog;
Mai 1: Parchg. R. O. Jones, Gaerwen; Mai 8: Gweinidog;
Mai 15: CAU – Cymanfa Annibynwyr Bangor a Bethesda yng Nghapel Pendref, Bangor am 10.30;
Mai 22: Gweinidog.
Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol.

Y Festri
O’r diwedd, mae’r gwaith o atgyweirio’r festri wedi ei gwblhau, ac fe ail-ddechreuodd Bwrlwm Bethlehem ar bnawn dydd Iau, 24 Mawrth. Hefyd y dosbarth clytwaith wythnos yn ddiweddarach.

Yr Ysgol Sul
Braf yw medru cyhoeddi bod yr Ysgol Sul yn ail-gychwyn ar 17 Ebrill, yn dilyn difrod y llifogydd i’r festri.

Cyfarfod Chwarter
Bydd Eglwys Bethlehem yn croesawu Cyfarfod Chwarter Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon ar nos Fercher, 27 Ebrill, am 7 o’r gloch.

MODURDY
FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAW
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Giatiau
gan Andre Lomozik

Caewch y giât os gwelwch yn dda. Dyma yw’r arwydd ar lawer o giatiau a welwch wrth alw i mewn i dai, neu ffermydd yr ardal. Mae yn gwahaniaethu rhwng tir cyhoeddus a thir preifat. Mae’r ffermwyr yn gofyn yn garedig i’r cyhoedd wneud hyn er mwyn cadw’r anifeiliaid mewn cae neilltuol neu i gadw cŵn draw. Ond sawl un ohonoch fydd yn sylwi ar wneuthuriad y giât wrth fynd trwyddi. Rwyf wedi bod yn cofnodi giatiau’r ardal ers nifer o flynyddoedd bellach, ac mae tua chant a hanner o luniau giatiau yn fy nghasgliad erbyn hyn, pob un ohonynt yn wahanol. Maent i’w gweld yn dyddio o’r un cyfnod, sef canol y bedwaredd ganrif a’r bymtheg at ganol yr ugeinfed ganrif. Maent wedi eu gwneud o haearn trwm iawn ac wedi eu gosod ar bileri llechi rhan amlaf. Erbyn heddiw mae’r oes wedi newid cryn dipyn ac mae amser yn brin gan ran fwyaf o bobl. Felly maent yn cael gwared a’r hen giatiau a’u newid am rhai mwy modern a llai o waith cynnal a chadw arnynt, sydd yn gwneud i rhywun feddwl a fydd rhain yn parhau cyn hired. Mae sawl un yr oeddwn wedi cymryd llun ohonynt wedi diflannu erbyn heddiw, gwaetha’r modd. Mae rhai, yn amlwg, wedi eu gwneud gan ofaint unigol, ond mae’n bosib fod y rhai tebyg i’r un uchod wedi cael eu gwneud mewn lle mwy masnachol. Nid wyf wedi dod o hyd i’r man lle roeddynt yn cael eu cynhyrchu hyd yn hyn. Os oes unrhyw un o ddarllenwyr y Llais â gwybodaeth, cofiwch gysylltu.




Blychau Post
Yn dilyn yr erthygl ar flychau post yn y rhifyn diwethaf, anfonodd Dafydd Gwilym Jones, Pant Glas, lun o flwch post i mi yn dyddio o oes y Frenhines Victoria. Bu farw’r Frenhines ar yr 22ain o Ionawr 1901, felly mae’r blwch yna o leiaf yn gant a pymtheg oed. Nid yw wedi rhoi lleoliad y blwch i mi, felly dyma her i chwi a mi am y mis yma. Lle mae’r blwch post hynafol yma?

Carneddi yn y Pumdegau a’r Chwedegau.
Yn yr un modd roeddwn wedi sôn am ddepo petrol Regent yn yr erthygl am Carneddi yn rhifyn Ionawr. Yn ddiweddar rwyf wedi dod o hyd i lun o’r depo yn cael ei adeiladu.



Cymerwyd y llun tua dechrau’r pumdegau gan Pennant Studios Bethesda. Fe soniodd fy nhad wrthyf sawl gwaith mai fo a fu’n gyfrifol am osod y brigdrawst (catwalk) oedd yn rhedeg ar draws topiau’r tanciau. Rwyf yn cofio tri o wŷr lleol oedd yn gweithio yno, sef Meirion Jones, Cledwyn Jones, a Glyn Campbell. Aeth Meirion a Cledwyn ymlaen i fod yn berchnogion safle betrol Chevron, lle mae siop Tesco yn awr. Diolch i’r Dr J. Elwyn Hughes hefyd am fy atgoffa o un arall o’r ardal oedd yn gweithio yno, sef Cyril Williams. Aeth Cyril a Glyn ymlaen i weithio i gwmni Hulse, a oedd wedi ei leoli ar safle chwarel Pantdreiniog. Mae cwmni T. Griffith yno yn awr yn atgyweirio lorïau trymion.



Oriel Cwm
Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882
RICHARD S. HUMPHREYS



Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



- 16 Ebrill - Cefnfaes - Cymdeithas Capel Jerusalem.
 23 Ebrill - Cefnfaes - Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.
 30 Ebrill - Cefnfaes - Eglwys Sant Cedol, Pentir
 07 Mai - Cefnfaes - Neuadd Talgai.
 14 Mai - Cefnfaes - Cymorth Cristnogol
 14 Caffi Coed y Brenin - NSPCC
 21 Mai - Cefnfaes - Gorffwysfan
 28 Mai - Caffi Coed y Brenin - Clwb Peldroed Mynydd Llandygai
 25 Mehefin - Neuadd Ogwen - Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.
 09 Gorffennaf - Caffi Coed y Brenin - NSPCC
 24 Medi - Cefnfaes - Cronfa Goffa Tracey Smith.
 22 Hydref - Cefnfaes - Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.
 29 Hydref - Cefnfaes - Eglwys Sant Cedol, Pentir
 12 Tachwedd - Caffi Coed y Brenin - NSPCC
 19 Tachwedd - Cefnfaes - Neuadd Talgai.
 26 Tachwedd - Cefnfaes - Plaid Cymru

Pwysig

Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddarw ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).



Noson Comedi

Eilir Jones a Hywel Pitts



NEUADD OGWEN,
DYDD SADWRN 23 EBRILL
 AM 7:30PM

Ymunwch â ni unwaith yn rhagor ar gyfer noson gomedi Neuadd Ogwen, a fydd yn sicrhau o wneud i chi chwerthin nerth eich boliau.

Fel un o diddanwyr fwyaf adnabyddus Cymru, mi fydd Eilir Jones yn gyfarwydd i nifer, yn enwedig fel ei gymeriad enwocaf: Ffarmwr Ffowc. Yr Ffarmwr di-flewyn ar dafod o gefn gwlad Cymru. Efo cefndir amlwg yn myd adloniant, ni fydd Eilir Jones yn un i'w fethu.

Er yn un weddol newydd i fyd comedi, mae Hywel Pitts yn seren addawol gyda'i frand arbennig o hiwmor. Mae Hywel yn un i gadw golwg arno wrth i'w yrfa fynd o nerth i nerth.

Peidiwch â cholli'r hwyl yma yn Neuadd Ogwen

CANOLFAN CEFNFAES

3 BORE COFFI - MIS EBRILL
 16 Ebrill - Cymdeithas Jerusalem
 23 Ebrill - Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen
 30 Ebrill - Eglwys Sant Cedol Pentir

3 BORE COFFI - MIS MAI
 07 Mai - Cefnfaes - Neuadd Talgai.
 14 Mai - Cefnfaes - Cymorth Cristnogol
 21 Mai - Cefnfaes - Gorffwysfan
10:00 - 12:00 Mynediad: £1

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST
 Ebrill 26

Mai 10, 24 a 31
 am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

SÊL PEN BWRDD

yn Llys Dafydd
 (Neuadd Ogwen os yn glawio)

Bore Sadwrn, 30 Ebrill
 am 9:30
 £5 y bwrdd

Rhagor o wybodaeth:
 01248 602509 - 01248 600872

Marchnad Ogwen

Ebrill 20fed
 Neuadd Ogwen, 5pm - 8pm

Mai 14eg
 Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Mehefin 11eg
 Sioe Dyffryn Ogwen

Bwydydd, Crefftau, Lleoli

www.marchnadogwen.co.uk
 Facebook

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
 1 Ffordd Garneddwen
 Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd

Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031



Collwyd yn y Rhyfel Mawr

Ganrif i fis Mawrth

Mae'r coffâd isod ym mynwent
Coffa Robertson Coetmor

ER COF

Am

W. T. Tyrer

Milwr Cyffredin 18797

Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig

A fu farw

1 - 3 - 1916

Yn 36 oed

Mab Thomas a Ellen Tyrer,

High St, Bethesda

Gwr Martha Tyrer, 8 Douglas Terrace,
Bethesda

Ganrif i fis Ebrill

ER COF

Am

John Williams

Milwr Cyffredin 12543

8th Bn., Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig

A fu farw

9 - 4 - 1916

Yn 35 oed

Mab Mrs Anne Ellen Williams,

6 Cilfoden St. Bethesda

(Diolch i Andre Lomozik am ei anfon
i'r Llais)



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.

Cynghori, gosod a thorri wigiau

Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

Côr y Penrhyn

Noson Lawen ar S4C

Erbyn i'r rhifyn hwn ymddangos byddwn wedi recordio Noson Lawen gyda Rhys Meirion, y tenor adnabyddus o Ruthun, a llu o artistiaid eraill yn cynnwys Eilir Jones a'r Tri Tennar a bydd yr holl berfformiad yn ymddangos ar S4C yn fuan.

Lle chi gyda 9Bach

Tua chanol Mis Ebrill bydd 9 Bach, y grŵp gwerin o'r Gerlan yn perfformio unwaith eto. "Lle chi" yw enw'r perfformiad ac fe'i gwelir yn Theatr Bryn Terfel, Pontio, Bangor ar 19 Ebrill gyda'r côr, Lleuwen Steffan, Kate Lawrence, Dewi Glyn a Ieuan Wyn. Cofiwch archebu eich tocynnau.

Swae Fawr Llandudno

Tua diwedd y mis bydd y côr yn perfformio yn y sioe fawr Fictoraidd sy'n digwydd yn flynyddol yn Llandudno. Y llynedd roedd perfformiad y côr yn digwydd ar y prom ond roedd y tywydd yn oer ac yn wlyb. Hei lwc am well tywydd eleni.

Cyngherddau eraill

Ym Mis mai byddwn yn ail afael yn y perfformiadau yn Eglwys Sant Ioan, Llandudno ac yn Henllys, Biwmares. Mae'r perfformiadau hyn bob amser yn rhai poblogaidd gan gynulleidfaoedd o bell ac agos a bydd mynd ar ein CD yn y cyflwyniadau hyn.

Cymeriadau'r Côr

Cyfes yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Aled Williams o Lanfairfechan sydd wedi gweithio fel peiriannydd electroneg yn y Brifysgol ym Mangor am flynyddoedd.

1. **Be' ydy dy enw llawn?**
Aled Williams.
2. **Oed?** Hŷn na'm dannedd: mae'r rheini dros oed yr addewid.
3. **Gwaith?** Peiriannydd electroneg yn ymdrechu i lwyr ymddeol.
4. **Lle wyt ti'n byw?** Gem Gogledd Cymru - Llanfairfechan.
5. **Un o le wyt ti'n wreiddiol?** Oriel Pen Llŷn - Llithfaen.
6. **Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?** Di-lun, dŵl, ond dyfeisgar.
7. **Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** Oddeutu 3 blynedd yn

- dilyn 30 mlynedd o brentisiaeth mewn côr cyfagos.
8. **Pa lais wyt ti?** Bariton. (Bas diffygiol)
9. **Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Angen cwmni gwerinwyr yr Hen Wlad.
10. **Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** Bydd raid i mi ddweud 'Cwyn y Gwynt' wedi bod yn rhannol gyfrifol am y trefniant.
11. **Pwy yw dy hoff ganwr/gantores?** - Meinir Wyn Roberts wedi creu argraff arbennig yn ddiweddar.
12. **Beth yw dy farn am ganu pop?** Casáu gweiddi angherddorol a limrigau llipa. Hoffi torri tir newydd a gwreiddioldeb.
13. **Oes gen ti atgof o ryw ymweliad efo'r côr?** Y daith i'r Unol Daleithiau'n



- ddiweddar. Amser arbennig a chyfle i gymdeithasu.
14. **Pa ddiddordebau sydd gen ti y tu allan i'r Côr?** Teithio'r byd i ymweld â'm teulu. Mynydda. Trwsio peiriannau.
15. **Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Parhau i ddatblygu ac arloesi ac i hybu gweithgareddau lleol tra'n ymdrechu i godi safonau cerddorol.

SIOP OGWEN

Cardiau, CD'S, Coffi Poblado, Crysau-T a Hwdis Cowbois,
Crefftau, DVD's, Golwg, Llyfrau, Lluniau a llawer mwy!

Am fan hwylus ar y Stryd Fawr, cofiwch am Siop Ogwen am eich holl anghenion siopa! Galwch draw neu rhwch ganiad i'r Siop am ragor o wybodaeth.

33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i Neuadd Ogwen)
partneriaeth@ogwen.org

01248 208 485

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwysu Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref
Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280

Eirlys Edwards, Sŵn y Coed, 23 Pentref
Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

Eglwys Sant Tegai, Llandygai
Gŵyl Dewi Sant
Bu cyfleoedd i ddathlu Gŵyl Nawdd Sant Cymru mewn ffyrdd amrywiol yn Llandygai. Ymunodd y Ficer, y Parchedig John Matthews, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Llandygai, Ann E. Williams a Rhian Llewelyn Jones, llywodraethwyr eglwysig yr ysgol ar orymdaith yr ysgol o'r pentref i Dalybont. Arweinwyd yr orymdaith gan y Parch Matthews yn cario llun o Ddewi Sant. Roedd y disgyblion yn gwisgo dillad coch yn ogystal â chennin Pedr, yn chwifio baneri ac ar ddiwedd y daith canwyd yr anthem genedlaethol. Derbyniwyd groeso cynnes gan drigolion Talybont a chafodd y plant bleser mawr pan fu sawl gyrrwr yn canu corn wrth basio mewn gwerthfawrogiad! Diolch i Mr Elfed Morgan Morris y Pennaeth mewn Gofal ac i staff yr ysgol am drefnu gorymdaith mor effeithiol a hwyliog fel rhan o weithgareddau "Wythnos Cŵl Cymru" Ysgol Llandygai.

Yn y gyda'r nos ar Fawrth 1af aeth cynulleidfafa Sant Tegai i Eglwys Gelli Tregarth am wasanaeth Gŵyl Dewi pan y pregethwyd gan yr Esgob Andrew John. Cafwyd cyfraniadau gan Catrin (St Cross), Rhian (St Tegai) a Rosemary a Brenda (Gelli).

Stondin yr Eglwys yng Nghanolfan Deiniol, Bangor
Diolch i'r grŵp bychan o wirfoddolwyr a fu'n brysur yn cynnal stondin nwyddau ar ddechrau mis Mawrth. Llwyddwyd i gasglu dros £67 er budd cronfa'r eglwys. Diolch yn arbennig i Dorothy Hanks am arwain y gwerthiant.

Gweithgareddau'r Pasg
Cafwyd sawl gwasanaeth ym Mro Ogwen i ddathlu uchafbwynt y Flwyddyn Eglwysig a threfnwyd yr Orymdaith Dystiolaethol arferol o St Tegai i St Cross. Gwenodd yr haul ar griw o blwyfolion St Tegai, St Cross a Gelli Tregarth a ddilynodd y Groes ac a weddiodd dros wahanol agweddau o fywyd beunyddiol mewn lleoliadau penodol ar hyd y ffordd.

Cynhaliwyd wasanaeth bendithiol iawn yn yr eglwys ar Sul y Pasg a daeth cynulleidfafa sylweddol i addoli a moli'r Iesu Atgyfodedig. Diolch yn fawr i Hazel Jones a'r tîm o wirfoddolwyr am addurno'r eglwys mor hardd i groesawu'r Pasg.

Profedigaethau
'Rydym yn cydymdeimlo â theulu y ddiweddar Gwyneth Eleanor Jones a fu farw ar Chwefror 27ain. Cynhaliwyd yr angladd yn Sant Tegai ar Fawrth 8fed. Trist hefyd yw cofnodi marwolaeth Harry Gross ym Mhlas Ogwen ar Fawrth 10fed. Bu Harry a'i ddiweddar wraig Jo yn aelodau ffyddlon yn Sant Tegai a chydymdeimlwn â'r teulu yn eu colled a'u galar.

Apêl am Arian 2016
Dosbarthwyd llythyr i aelodau'r eglwys ac i ffrindiau sydd gyda chysylltiadau personol

â phentref Llandygai yn apelio am roddion tuag at gostau cynyddol rhedeg yr eglwys, cynnal y fynwent ac atgyweirio ein hadeilad hanesyddol. Derbynir yn ddiolchgar unrhyw roddion yn daladwy i "Sant Tegai, Llandygai" trwy law y Ficer, y Parch John Matthews, Y Ficerdy Pentir, Bangor. LL57 4YB neu'r wardeiniaid Edmond Douglas Pennant, Ann E. Williams a'r Ysgrifenyddes Nerys Jones.

Amseroedd gwasanaethau Sant Tegai
Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30 y. b.
Gwasanaethau ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis am 11 y. b.

Sefydliad y Merched Llandygai
Cafwyd cyfarfod mis Mawrth ar bnawn Mercher 23ain, gyda Ann Hughes yn llywyddu. Croesawyd pawb yn gynnes. Darllaeodd Sheila funudau cyfarfod Chwefror ac yn dilyn llythyr y ffederasiwn Nodwyd ei gynnwys a chafwyd trafodaeth ar ambell bwnc. Eglurwd mai i goleg Denman y bydd Irene yn mynd ar gwrs ac nid i Ddenmarc.

Daeth nifer o ymddiheuriadau oherwydd absenoldeb.

Ar fyr rybudd daeth Eira i'r adwy a rhoddodd sgwrs i ni am ei hymweliad diweddarâ Norwichyn Sir Gaer. Roedd wedi ymweld â'r pwll halen anferthyno sydd yn mwynio'r halena ddefnyddir ar y ffyrdd pan fydd yn rhewi. Difyr iawn oedd ei sgwrs a rhoddodd ffeithiau diddorol i ni fel sut nad yw'r halen yn effeithio dim ar y peiriannau haeam gan fod y y tymheredd cynnes o dan y ddaear yn wastadol.

Cawsom bnawn difyr a hapus iawn a diolchwyd i Eira gan Eirlys.. Enillydd y raffi oedd Irene.

CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrac ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (gyda'r nos 602767)

Blodau ar gyfer pob achlysur

**Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan**

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
Oriau Agor
Llun – Gwener: 6.00 - 11.00
Sadwrn: 3.30 – 12.00
Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00
01248 600219
www.douglas-arms-bethesda
Cewch groeso cynnes gan
Gwyn a Christine

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda	01248 600045	Cludiant am ddim yn lleol	Mynytho	01758 730768
Caernarfon	01286 676070	Stoc helaeth ac amrywiol	Llanrwst	01492 640794
Llangefni	01248 751677	Croeso i gyfrifon masnachol	Siop yn Llanrwst	01492 640794
		Staff cyfeillgar a phroffesiynol		
		Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y		

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop yn Llanrwst

Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS

- 1 Yn llawn daioni (5)
- 4 Arf yr enfys (3)
- 6 Enw ci defaid efallai (3)
- 8 Wedi ymddwyn yn rhy eithafol (idiom) (4,3,6)
- 9 Gwynt yr einioes (5)
- 11 Dangos pa un (4)
- 13 Bwthyn, fel un syml a godwyd ar frys ers talwm (5)
- 14 Mae o’n un o bedwarawd efo nef tir a môr mewn emyn enwog (5)
- 15 Beichiau (5)
- 16 Tybed? (4)
- 18 Cefnogaeth, ariannol weithiau i wneud gwaith da (5)
- 21 Pryd bwyd y werin, fel swper chwarel gynt (5,3,5)
- 23 Mae un Llanarmon yno (3)
- 24 Crib, Frech, Wiwer -(3)
- 25 Rhoi cylch ynghanol y gair blêr cyn dringo talcen y tŷ

I LAWR

- 1 Diogelwch eich eiddo rhag y rhain wrth fynd am dro i’r llan (6)
- 2 Sian Owen druan, a’r gŵr drwg ynddi ar ei hysgwyddau yn ôl y llun enwog (4)
- 3 Cymydog agosaf yr Aifft (5)
- 4 Merch farddonol (3)
- 5 Mae Glenys fach, er ynghanol yr aur, yn ddryslud a charbwl ei mynegiant (7)
- 6 Cloc cerddorol, tic, toc, tic, toc..... (8)
- 7 Efallai y byddai’n fuddiol am wddw Tori amser etholiad (3,3)
- 10 “..... pob ffam , a thân pob nwyd, A dry’n ei dro yn lludw llwyd.” I.D Hooson (5)
- 12 Ni ellir ei ddal yn ôl na’i rwystro (8)
- 14 Desg i ni rywsut yng Nghyngor Bangor (7)
- 15 Tybed oes rhai ar ôl heb fod yn deilchion ar ôl 8 Ar Draws (6)
- 17 Man Utd tîm fel hyn yn ôl ei enw (6)
- 19 “Pen punt a chynffon” Blêr iawn (5)
- 20 Beth sydd yn yr enw, y bachgen yma? (4)
- 22 Dyma lle mae pob cliw o flaen hwn (3)

ATEBION CROESAIR MAWRTH 2016

AR DRAWS

- 1 Gwywo, 4 llygod, 7 Y lle, 8 Dysg, 9 Ofydd,
- 11 Fatican, 13 Sgriw, 14 Dynion, 15 Dwndwr,
- 19 Gwella, 21 Llangian, 22 Osgo, 23 Crib,
- 25 Rôl, 26 Dyblu, 27 Tanio.

I LAWR

- 1 Gwynfyd, 2 Ymestyn, 3 Oed 4 Llysenw,
- 5 Difyr, 6 Iddew, 10 Ysgwrn, 12 Crochan,
- 16 Deigrin, 17 Ronaldo, 18 Allorau, 19 Gron,
- 20 Ergyd, 24 Bet

1		2		3		4		5		6		7
8												
				9		10						
11		12						13				
				14								
15									16			17
				18				19				
									20			
21						22						
23				24				25				

Cafwyd pedwar yn cynnig “efydd” (Saesneg -bronze) yn lle “ofydd” un o urddau’r Eisteddfod Genedlaethol. Dau yn cynnig “mwswdr” (mwstwr yw’r sillafiad cywir) yn lle “dwndwr”, a chafwyd “cwyno” yn lle “ gwywo”

Gan y canlynol y erbyniwyd yr atebion hollol gywir y tro hwn: Bryn a Gwen Evans, Gaynor Elis-Williams, Rita Bullock, Bethesda, Gareth William Jones, Bow Street, Donna Colesby, Penwortham, Elizabeth Buckley, Dulcie Williams, Tregarth; Jean Hughes, Talybont; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Elfed Evans, Karen a Tom, Williams, J. R. ac M. A. ones, Llanllechid; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Ellen Whitehouse, Birmingham.
Ond yr un a ddaeth i’r brig y tro hwn am y wobr yw **Gwyneth Jones**, Y Bwthyn, 6 Waen Wen, Glasinfryn, Bangor LL57 4UF. Llongyfarchiadau mawr.

Atebion erbyn 3 Mai 2016 i ‘Croesair’

Bron Eryri,
12 Garneddwen,
Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

I hysbysebu y **Llais Ogwan** neu i dynnu sylw weithgareddau yn eich hardal, gan gynnwys Dyddiadur y Dyffryn, cysylltwch â'r trefnydd hysbysebion - **Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái ☎ 600744

Eglwys St. Ann a St. Mair
Ebrill 17: Boreol Weddi
Ebrill 24: Cymun Bendigaid
Mai 1: Gwasanaeth Teuluol
Mai 8: Cymun Bendigaid
Mai 15: Boreol Weddi

Dechreuir am 9.45 y.b.
Estynnwn groeso cynnes i
chwi oll ymuno a ni yn ein
gwasanaethau boreol. Os oes
unrhyw un yn dymuno derbyn
Cymun gartref neu unrhyw
wasanaeth arall cysylltwch
â'r Ficer, Y Parchedig John
Matthews (364991) neu'r
Parchedig Christina McCrea
(372249).

Ein dymuniadau gorau i bawb
sy'n sâl ar hyn o bryd; anfonwn
ein cofion cywiraf atoch i gyd.

Fel y gŵyr rhai ohonoch mae
John Florence, Tregarth, â'i
weithwyr wedi bod yn brysur yn
clirio mynwent St. Ann. Diolch
o galon iddynt - mae'n werth ei
gweld. Mae llawer ohonoch yn
aelodau o Glwb Cant y Fynwent
- y cyllid yma sy'n ein galluogi i
ymgymryd â'r gwaith. Yr ydym
yn ddiolchgar iawn i chwi oll. Os
oes gan rhywun arall diddordeb
mewn ymuno cysylltwch â Lynda
Owen, Bryniau Terrace, Mynydd
Llandygai. Buasem yn falch iawn
o gael eich cefnogaeth.

Clwb y Mynydd
Bu'r Clwb yn dathlu Gwyl Ddewi
yn Fron Goch, ger Caernarfon, lle
cafwyd te prynhawn ardderchog
a chyfle i siopa am blanhigion
i'r ardd. Prynhawn difyr iawn!
Diolch i Derfel Owens am ein
cludo fel arfer.
Bydd y Clwb nesaf yn cyfarfod

yn y Neuadd ar 20 Ebrill, ac ar y
trydydd dydd Mercher yn fisol.
Mae croeso i chi ymuno â
ni. Bydd sesiwn am Awstralia.
Edrychwn ymlaen!

Clwb Ieuenctid
Dymuna Iola ddiolch i bawb a
gyfrannodd at noson Bingo'r
Pasg. Llawer wedi ennill wyau
ac eraill yn lwcus hefo'r raffl.
Cafwyd noson ddifyr iawn. Mae'r
aelodau yn ddiolchgar iawn i
bawb!

Cyfarchion
Cofiwn at bawb sydd yn wael, ac
fe ddymunwn adferiad buan i chi.

**Llwyddiant yn Eisteddfod
Cylch yr Urdd**
Daeth llwyddiant i ddwy chwaer
a brawd o Fynydd Llandygai yn
Eisteddfod Cylch yr Urdd ym Mis
Chwefror a Mawrth, sef Nel Mai
a'i hefaill Myfi Celyn a'u brawd
Ifan Rhys. Roedd Ifan yn rhan o
Fand Jazz Ysgol Tryfan ddaeth
yn ail yn eu cystadleuaeth. Daeth
y wobwr gyntaf i'r merched yn
yr Adran Celf a Chrefft. Gwobr
gyntaf i Myfi am ei gwaith gweu
a gwnio 3D a chyntaf i Nel am ei
gwaith printio ar ddefnydd. Yn
yr Eisteddfod Sir daeth gwaith
grefft Myfi yn drydydd. Roedd
Myfi yn aelod o Gor Ysgol y
Garnedd gafodd y wobwr gyntaf
yn y Cylch ac ail yn y Sir ac
yn gyntaf gyda'r Gan Actol
Ysgolion Cynradd. Roedd Nel
yn rhan o Grwp Dawnsio Disgo
Ysgol y Garnedd, Bangor, fu'n
cystadlu yn yr Eisteddfod Sir yng
Nghricieth. Llongyfarchiadau i
chi eich tri.

gair neu ddau

John Pritchard

Duw

Ym mêr fy esgym ac yn nyfnder
fy nghalon ac yng nghraidd fy
meddwl rwy'n credu yn Nuw. Gwn
ei fod yn gofalu amdanaf. Rwy'n ei
garu am ei fod ef yn gyntaf wedi fy
ngharu i. Ond er hyn i gyd, fedra i
ddim profi fod Duw yn bod.

A dyna pam ei bod yn
rhyfeddod i mi fod rhai pobl yn
gallu datgan mor sicr nad oes
Duw i'w gael. Cofiaf i mi unwaith
ddarllen dwy erthygl o fewn
ychydig ddyddiau i'w gilydd
oedd yn cyhoeddi'n bendant nad
yw Duw yn bod. Roedd y naill
yn dweud hynny oherwydd y
drychineb yn Aberfan hanner
can mlynedd yn ôl, a'r llall ar sail
rhyfeloedd erchyll y presennol.

Mae dioddefaint a drygioni'n
peri dryswch a phoen a gofid. A
does dim syndod fod pobl yn aml
yn gofyn pam fod y fath bethau'n
digwydd. Ond nid yw dioddefaint
a drygioni'n gwrthbrofi bodolaeth
Duw. Gall pobl honni eu bod yn
gwneud hynny; gallant gredu eu
bod yn gwneud hynny. Ond ni
allant ddweud hynny fel ffaith.
Neu o leiaf, ni allant ddweud eu
bod yn gwrthbrofi bodolaeth
Duw'r Beibl. Mae dioddefaint a
drygioni'n hysbys i Dduw'r Beibl.
Bu'r ddau beth yn rhan o fyd Duw
byth ers dyddiau Gardd Eden.

Pe byddai Duw wedi dweud
na fydd neb yn dioddef neu
wedi addo dileu drygioni o'r byd
presennol, byddai sail dros amau
ei fodolaeth. Ond ni ddywedodd
Duw hynny. I'r gwrthwyneb, mae
Duw'r Beibl yn addo nerth yng

nghanol dioddefaint ac yn galw
pobl i gefnu ar y drygioni sy'n
achosi cymaint o lanast yn ei fyd.

Mae rhai'n disgwyl i Dduw
ymyrryd â deddfau natur er mwyn
osgoi pob trychineb, neu'n credu y
dylai Duw atal pobl rhag cyflawni'r
drygioni sy'n achosi poen i eraill.
Ond nid dyna Dduw'r Beibl. Mae
Duw'r Beibl yn caniatáu drygioni.
Canlyniad uniongyrchol methiant
pobl i barchu Duw yw drygioni, ac
mae'n annorffod mewn byd lle mae
pobl ffaeledig yn rhydd i ddewis
sut i fyw. Ac mae Duw'r Beibl
hefyd yn caniatáu dioddefaint.
Mae damweiniau a thrychinebau
naturiol yn annorffod mewn
byd o ryddid a threfn naturiol
gydag achos ac effaith i bob
peth. Datgan wna Duw'r Beibl ei
fod yn ben dros y cyfan, a'i fod
hyd yn oed yn gallu defnyddio
drygioni a dioddefiadau er
mwyn ei bwrpas ei hun.

Fedrwn ni ddim deall hyn
yn llawn. Mae meddyliau Duw
gymaint uwch na'n meddyliau ni.
Ond fedrwn ni ddim anwybyddu'r
pethau hyn chwaith.

Nid Duw bach neis nad oes
ganddo ateb i broblem pechod
a drygioni yw ein Duw ni. Mae'n
rhoi nerth i ni yng nghalon pob
dioddefaint. Fe anfonodd ei Fab
i ddioddef marwolaeth erchyll
er mwyn i ni fod yn rhydd
rhag canlyniadau drygioni.
Nid yw bodolaeth drygioni a
dioddefaint yn ddadl ddigonol
dros wrthod credu yn Nuw'r
Beibl.

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymmerwr Trydanol
Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

BYSUS
D. J. Owens
RHWLAS

01248 361044 a 07771 634195



**BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATIL.**

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

**GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS**

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
01248 355336

Clwb Rhiwen

Cyfarfod Mawrth 8fed – Roeddem yn dathlu G,wyl Ddewi a chawsom ein hatgoffa am y storïau amdano a chanu ambell i gân a ddysgom flynyddoedd yn ôl. Cawsom deisennau gan Ann, Dilys a Myra. Cawsom fanylion am ein hymweliad â Llaeth y Llan ym Mis Gorffennaf.

Merched y Wawr, Cyfarfod Mawrth 8fed

Llywydd y mis oedd Carys a derbynwyd ymddiheuriadau oddi wrth Dilys a Bet Atgoffodd Annes ni am Wyl y Pum Rhanbarth, ac am gystydlathau Llanelwedd a'r Wyl Fai. Cawsom longyfarch Carys ar enedigaeth wyres fach, Nel Iolen a hefyd diolchwyd i Annes am ysgrifennu at swyddogion Pontio yn mynegu ein siom efo'r "Caban" sydd ar y safle ac awgrymwyd ein bod hefyd yn anfon copi at Mair Price, Ysgrifennydd Rhanbarth Arfon.

Ein gwestai oedd Sarah T Davies a siaradodd ar y testun Calon Iach. Mae'n ysgrifenyddes yn Ysbyty Eryri ond yn gwirfoddoli gyda Sefydliad y Galon. Adroddodd ychydig o'i chefnidir ac egluro inni pam ei bod yn gwirfoddoli ac yn mynd o amgylch i siarad â chymdeithasau. Cafodd ei geni â nam ar ei chalon a chael llawdriniaeth fawr pan yn 8 mis oed, a dim ond megis dechrau oedd hyn gan iddi fynychu ysbytai yn Lerpwl sawl gwaith ac roedd y driniaeth ddiweddaraf bum mlynedd yn ôl. Mae'n fam i ddau o blant yn eu harddegau ac roedd yn fyrlymus iawn wrth ddisgrifio ei hanes ac am ganmol y gofal a gafodd. Roedd ganddi

bamffledi i'w rhannu ac roedd am bwysleisio mor bwysig yw gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

Diolchwyd iddi am ddod atom ac roedd ei sgwrs yn amserol gan mai Sefydliad y Galon yw elusen penodedig Merched y Wawr ar y funud. Roeddem yn dymuno'n dda iddi yn y dyfodol.

Cyfarfod Mawrth 23 – Gan nad oedd yn bosibl inni ymweld â Feed My Lambs yng Nghaernarfon penderfynwyd ein bod felly yn mynd i'r Lodge yn Ninorwig am ginio. Braf oedd cael croesawu Irene yn ôl atom, doedd amgylchiadau ddim wedi caniatáu iddi ddod atom am oddeutu blwyddyn. Cafwyd pnawn pleserus yno. Diolch i Ann am drefnu.

Heb fod yn dda

Y mae Mrs Meirwen Owen, Frondeg, heb fod yn dda yn ddiweddar ac ar y funud yn Ysbyty Gwynedd ac y mae Mrs Enid Williams, Pen Bonc, yn gwella ac yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun ar hyn o bryd. Anfonwn ein cofion at y ddwy ac at eraill yn y pentref sydd heb fod yn dda eu hiechyd.

Nôl mewn hanes

Ers tro bellach mae erthyglau yn y Daily Post yn ymweld â hen achosion Llysoedd Barn, maent yn ddifyr ac yn procio'r cof i sawl un dwi'n siwr. Yn dilyn y cynhyrchiad ardderchog o Chwalfa yn Pontio yn ddiweddar pryd y clywsom am aberth a dewrder y gweithwyc roedd erthygl yn y daily Post yn adrodd hanes y deuddeg chwarelwr a fu o flaen eu gwell yn y Llys yng Nghaernarfon ym Mis Gorffennaf 1901. Roedd dau John Owen, un o Llanrug a'r llall o Rhiwlas. Felly roedd rhaid darganfod hanes yr un o'r pentref a dod i wybod mai taid Dilys Parry, Bryntirion ydoedd ac mae hi'n byw

yn hen gartref ei thaid. Mae'n cofio clywed sôn ar yr aelwyd iddo dreulio noson mewn cell, ac wedi i'r rheithgor drafod eu tynged am hanner awr yn unig fe'u cafwyd yn ddieuog. Yn ddiddorol iawn bu brawd mam Dilys, Mr Aneurin Owen, yn ysgrifennydd Undeb y Chwarelwyr, ac yntau hefyd am gael y gorau i chwarelwyr ei gyfnod

Diolch

Am ddau ddiwrnod yn ddiweddar bu Ryan Ninnies, Bronydd, yn y Neuadd yn casglu nwyddau i'w gwerthu yn siop elusen Ymchwil Canser U.K ym Mangor. Roedd wedi'i blesio'n arw gyda'r ymateb a llwyddodd i lenwi 36 o fagiâu. Y mae am ddiolch i bawb a gyfrannodd at ei ymgych.

Swydd newydd

Pob dymuniad da i Heledd Evans, Cae Glas, ar ei swydd newydd, mae'n gweithio 'nawr fel tywysydd yn y Llys yng Nghaernarfon.

Sgio

Y mae Gethin Williams, Caeau Gleision, wedi ennill cymwysterau i fod yn hyfforddwr sgio i'r anabl ac eleni roedd gyda grŵp yn Bulgaria. Roedd ei dad, Richard, hefyd tn o'r criw ac wedi mwynhau ei hun yn arw yn ôl pob sôn. Mae Gethin a Richard am ddiolch i'r rhai a wnaeth eu noddi ar gyfer y daith.

Apêl Cymorth Cristnogol

Pob Mis Mai cynhelir Wythnos Cymorth Cristnogol pryd y cesglir arian o dŷ i dŷ. Diolch i'r rhai a fu wrthi y llynedd, ond y mae gwir angen mwy o gasglyddion. Tybed a oes rhai'n fodlon helpu eleni? Buasai casglu y tai o'ch cwrpas neu ar yr un stryd yn dderbyniol iawn. Os am helpu'r achos teilwng hwn yna cysylltwch â fi os gwelwch yn dda. Diolch.



Ymddiriedolaeth
Genedlaethol yn Ogwen

Rydym wedi trawsnewid yr hen storfa ym Mwthyn Ogwen yn safle gwybodaeth a swyddfa ar gyfer ein tîm ceidwaid Carneddau a Glyderau. Mae'n bleser mawr gennym gyhoeddi bod y 'cwt croeso' nawr ar agor. Mae tri ceidwad tymhorol ar gael i roi cyngor i bawb trwy gydol yr haf.

Croeso mawr i chi alw i gael cipolwg a sgwrs.

Rydym eisoes wedi bod yn gweithio efo'r 'Outward Bound Trust' ym mhrif adeilad Bwthyn Ogwen dros y gaeaf a bydd y Bartneriaeth yn parhau i

sicrhau bod pobl ifanc yn cael profiadau awyr agored yn yr ardal.

Dyddiad i'r dyddiadur: 2 Mehefin

Diwrnod o Hwyl yn Ogwen, 11am - 4pm

Bydd cyfle i chi drio gweithgareddau awyr agored beiddgar fel dringo creigiau neu dramwyo tyroleaidd. Heriwech eich hun i ddod o hyd i'r esgid aur neu eisteddwch yn ôl i ymlacio gyda phicnic a cherddoriaeth fyw draddodiadol yng Nghwm Idwal a llawer mwy!

Ysgol Rhiwlas

Llwyddiant Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau mwr i'r tîm dawnsio am ddod yn fuddugol yn Eisteddfod Sir yr Urdd yng Nghricieth. Ymlaen i'r Genedlaethol yn Y Fflinc.

Ymweliad â Mynydd Gwefru

Bu disgyblion yr Adran Iau ar ymweliad â Mynydd Gwefru yn Llanberis gan ddysgu sut y cynhyrchir ynni trwy ddefnyddio pŵer dwr. Dyma ran o'r thema tymhorol "Dwr".

Ymweliad Capel Ty Ffynnon

Ar y 16eg o Fawrth bu'r Adran Iau ar ymweliad â Chapel Cae Ffynnon, Bangor. Cawsant wrando ar hanes y Pasg cyntaf yn cael ei adrodd a gweld rhai o aelodau'r o'r capel yn action rhannau o'r hanes, er mwyn dod â'r digwyddiadau yn fyw. Cafwyd cyfle i gymeryd rhan mewn cystadleuaeth ail

ysgrifennu hanes yr Wythnos Olaf a daeth Mr Steffan George i'r ysgol i feirniadu'r straeon. Llongyfarchiadau i Osian Wyn Rowlands, blwyddyn 5 am ennill y gystadleuaeth a derbyn wy Pasg siocled yn wobwr.

Ymweliad â Fferm y Foel

Ar y 4ydd o Fawrth cafodd plant Cyfnod Sylfaen fynd ar drip gyda Miss Goosey i Fferm y Foel. Roedd yr haul yn gwenu arnynt a phawb wedi mwynhau eu hunain yn ofnadwy yn bwydo'r anifeiliaid a chael trip yn nhreflar y tractor melyn a'r beic pedwar olwyn.

Pencampwriaeth Gymnasteg Gwynedd

Bu grŵp o ddisgyblion o'r Adran Iau yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Gymnasteg Gwynedd yn ddiweddar. Llongyfarchiadau iddynt.

Ysgol Llanllechid

Eisteddfod yr Urdd
Llongyfarchiadau i Efa Glain ar gyrraedd y brig a chael y wobwr gyntaf yn y gystadleuaeth Unwad Cerdd Dant Bl 6 ac Iau. Da iawn chdi a llongyfarchiadau gwresog.
Llongyfarchiadau hefyd i'r Parti Cerdd Dant ar ennill y wobwr gyntaf yn Eisteddfod y Sir. Diolch i Mr Huw Edward Jones ac i Mrs Menai Williams.
Llongyfarchiadau hefyd i'r Parti Unsain o Flwyddyn 4, o dan arweiniad Mrs Nerys Tegid ar ddod yn drydydd yn y Sir.

Celf a Chrefft yr Urdd
Llongyfarchiadau i Idris ac Idwal Temple-Morris ar ennill y wobwr gyntaf ym maes Celf a Chrefft. Edrychwn ymlaen at gael gweld eu hymdrechion yn cael eu harddangos yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.
Moelyci
Treuliodd Bl 1 a 2 fore anturus yng Nghanolfan Garddio Moelyci yn ddiweddar. Cafodd

y disgyblion gyfle i ddysgu am wahanol ddail, a chael helpa drysor i chwilio am wahanol ddail a'u henwi. Wedi hyn, cafwyd cyfle i ymlwybro o amgylch y ganolfan a sylwi ar y gwahanol blanhigion, a phlannu bresych, pys a ffa, cyn dod â nhw'n ôl i'r ysgol i'w tyfu. "Tyfu Pethau" ydy themau'r dosbarth ar hyn o bryd, felly cafodd y disgyblion ddysgu llawer yn ystod eu hymweliad, yn ogystal â chael llawer o hwyl!

Mr Alaw Jones
Pleser oedd cael cwmni Mr Alaw Jones i ddosbarth Bl3 ar Fawrth y 15fed. Daeth i sgwrsio am ei waith yn codi waliau cerrig ac roedd yn amlwg yn arbennigwr yn ei faes. Fel rhan o'n thema 'Yr ardal leol', roedd yn gallu rhannu ei atgofion o bentref Rachub gyda ni gan gynnwys hanes siop Madam 'Chips'. Cawsom glywed am ddiwrnod cyntaf Mr Jones yn Ysgol Llanllechid, pan agorwyd y drysau am y tro cyntaf yn 1954.

Diolch yn fawr iawn Mr Jones, cawsom brynhawn bendigedig yn eich cwmni.
Cyfeiriannu
Ar brynhawn braf y 17fed o Fawrth cafodd Bl 3 fynd allan i ddysgu sut i gyfeiriannu gyda Ailsa Orlick o ganolfan Bwlch y Nant. Yn gyntaf, cawsom ddysgu sut i ddefnyddio cwmmpawd i ddarganfod cyfeiriad a sut i ddefnyddio map. Roedd Ailsa wedi cuddio cliwiau o amgylch dir yr ysgol, ac am weddill y prynhawn cawsom gyfle i ddefnyddio ein sgiliau newydd i ddilyn cyfarwyddiadau er mwyn darganfod y cliwiau. Diolch yn fawr iawn i Ailsa ac hefyd i Mrs Jenny Billington, mam Dylan a Bethan am drefnu'r prynhawn hyfryd.
Gwaith Maes Daearyddiaeth
I ffos Coetmor yr aeth disgyblion Mr Huw Edward Jones a Mr Stephen Jones i astudio eu hamgylchedd leol. Diolch i Mr Dafydd Coetmor

am ei ganiatad i gael mynd ar ei dir ac astudio cyflymder y ffos a'i nodweddion. Bu'r plant yn brysur yn defnyddio eu sgiliau rhif i ddarganfod cyfartaledd llif y dŵr mewn gwahanol fannau o'r ffos.
Cyngerdd Gwyl Ddewi
Wedi tymor prysur a chynhyrchiol tu hwnt, llwyfanwyd cyngerdd mawreddog Gwyl Ddewi yn neuadd yr ysgol. Adroddwyd geiriau Lewis Valentine, I.D Hooson, Eifion Wyn a llawer mwy a chafwyd arlwy amrywiol o'r dosbarth Meithrin i Flwyddyn 6. Llawer o ddiolch i chi'r rhieni a ffrindiau'r ysgol am eich presenoldeb a'ch cefnogaeth.
Pasg Hapus
Dymuniadau gorau am Basg Hapus i bawb. Dyddiad cyntaf tymor yr haf yw Ebrill 11eg. Cofiwch am Ras Fawr Moel Wnion ar Ebrill 23 (dydd Sadwrn)

Ysgol Penbryn

Balchder Bro Ogwen
Roedd gwirfoddolwyr Balchder Bro Dyffryn Ogwen yn falch o gael cyfle i ymuno â rhai o blant hŷn Ysgol Penybryn i hel sbwriel yn ardal Pantdreiniog. Darparodd tîm Trefi Taclus Cyngor Gwynedd ffyn codi sbwriel arbennig i'r plant, oedd yn fwy addas iddyn nhw na'r rhai ar gyfer oedolion.
Roedd y plant wrth eu boddau yn gweithio i wella golwg yr ardal a dysgu pwysigrwydd peidio taflu sbwriel a chadw ein bro yn daclus. Llenwyd tuag ugain o fagiau sbwriel gan y plant a'r oedolion, ynghyd â rhai eitemau mawr annisgwyl fel sedd toiled a chadair swyddfa yr oedd rhywun wedi eu taflu. Cafodd rhai o'r hogiau hwyl yn cario'r gadair yn ôl i'r man casglu a gwnaeth y plant i gyd fwynhau'r achlysur yn arw.
Dywedodd Dr Paul Rowlinson, Ysgrifennydd Balchder Bro Ogwen: "Dwi'n ddiolchgar iawn i ddisgyblion a staff Ysgol Penybryn a'r gwirfoddolwyr am eu hymdrechion i wella'r fro. Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r Cynghorydd Ann Williams



Gwirfoddolwyr Balchder Bro Ogwen a phlant Ysgol Penybryn yn barod i hel sbwriel

am drefnu'r digwyddiad ac i swyddogion Cyngor Gwynedd am ddarparu'r offer i'r plant ac am ddod i gasglu'r bagiau a'r pethau trwm yn syth ar ôl i ni

orffen y gwaith."
Bydd aelodau Balchder Bro Ogwen yn gosod basgedi crog unwaith eto eleni ar hyd y Stryd Fawr ac yn trefnu sesiynau hel

sbwriel eraill yn ystod y flwyddyn. Os hoffech helpu gallwch gysylltu â Paul Rowlinson, ar y rhif (01248) 605365 neu ar e-bost: paul.rowlinson@trysor.f9.co.uk

Ysgol Abercaseg

Neges bwysig PC Meirion Williams

Unwaith eto'r tymor yma bu i PC Meirion Williams ymweld â'r ysgol i drosgwlyddo negeseuon pwysig i'r plant. Testun ei sgwrs oedd 'Paid cyffwrdd, dweud!' a bellach mae holl blant yr ysgol yn ymwybodol o'r hyn y dylent ac na ddylent ei wneud o weld a thrin ysbwriel. Diolch am y sgwrs ddifyr P C Meirion.

Gweithdy creu pypedau

Mae'n debyg i chwi gofio i ddisgyblion blynyddoedd 1 a 2 ymweld a Neuadd Ogwen ar gyfer perfformiad o'r sioe pypedau 'Drwg'. Wel, yn dilyn y perfformiad, bu'r disgyblion yn ffodus o gael Efa Dyfan, a fu'n gyfrifol am greu'r pypedau, i ddod draw atom i'r ysgol i gynnal gweithdai celf. Cafodd y plant fodd i fyw yn datblygu eu syniadau a chreu pypedau o bob lliw a llun sydd bellach yn cael eu defnyddio o fewn gweithgareddau dosbarth i gyfoethogi'r profiadau dysgu.

Ymweliad gan Hâf Llywelyn

Does yna ddim byd gwell na gwrando ar straeon yn cael eu darllen ac yn arbennig os mai awdur y straeon hynny sy'n eu darllen. Wel dyna a ddigwyddodd yn ddiweddar yn yr ysgol. Daeth Hâf Llywelyn draw i ddarllen straeon i ddisgyblion y dosbarth derbyn a blwyddyn 1 yn seiliedig ar anturiaethau Ned y Morwr. Yn dilyn hynny cafwyd cyfle i chwarae nifer o gemau gan esgus bod yn gymeriadau o'r straeon. Cafodd y plant gymaint o fwynhad fel na allant ddigwyl i gael darllen llyfrau eraill o'r gyfres gan ddod i wybod mwy am hanes Ned a'i ffrindiau.

Llwyddiant Celf a Chrefft

Unwaith eto eleni mae nifer o ddisgyblion yr ysgol wedi profi cryn lwyddiant yng nghystadlaethau celf a chrefft yr Urdd gyda sawl darn o waith wedi dod i'r brig yn y Sir. Diolch yn arbennig i'r cymorthyddion a fu'n cynnal 'Clwb Celf Mr Urdd' yn wythnosol ers mis Medi - mae'r holl waith caled wedi talu ffordd!!

'Ffrindiau Ysgol Abercaseg'

Diolch o waelod calon i 'Ffrindiau Ysgol Abercaseg' am eu cyfraniad o £1900 tuag at brynu offer i hyrwyddo'r dysgu yn yr awyr agored. Mae'r arian wedi ei gasglu yn dilyn cynnal nifer o weithgareddau dros y flwyddyn. Yn ddealladwy, mae'r plant wedi gwirioni hefo'r adnoddau newydd yn arbennig gan mai nhw a gafodd ddewis beth i'w brynu!



Wythnos Werdd

Fel rhan o waith thema'r tymor bu i blant yr ysgol ymweld â sawl lleoliad o amgylch y pentref. Yn ystod yr ymweliadau yma, bu i'r rhan fwyaf ohonynt sylwi bod cryn dipyn o 'sbwriel yn gorwedd ar y plamentydd ac mewn lleoliadau niferus eraill. Testun poendod iddynt oedd meddwl am effaith niweidiol hyn ar drigolion, anifeiliad a bywyd gwyllt yr ardal. Dyma felly fynd at i weithredu drwy gynnal 'Wythnos

Werdd' i hyrwyddo 'materion gwyrdd' megis ailgylchu ac arbed ynni. Bu i bob dosbarth greu arteffactau o ddeunyddiau ailgylchu (lluniau i'w gweld ar wefan yr ysgol) ac yn benllanw ar y cyfan cafwyd 'Parêd Penwisgoedd Pasg'. Roedd y penwisgoedd i gyd wedi eu creu o ddeunyddiau ailgylchu. Diolch i'r plant (ac i'w rhieni!!) ac ddangos y fath greadigrwydd a chynhyrchu hetiau a fyddai'n werth eu gweld hyd yn oed ar y 'catwalk' yn ystod wythnosau ffasiwn Llundain, Efrog Newydd, a Milan!! Diolch hefyd i Tesco Bethesda am gyfrannu'r gwobrau.



Ffarwelio

Rydym yn ffarwelio â Miss Marion Mayhead sydd wedi bod yn aelod gwerthfawr o'r staff ers bron i 5 mlynedd. Rydym yn diolch iddi am ei gwaith caled a chydwybodol wrth gefnogi'r disgyblion ac yn dymuno pob lwc iddi yn ei menter nesaf.

Ar ôl naw mlynedd o wasanaeth ffyddlon fel Pennaeth Ysgol Abercaseg roedd hi'n anodd iawn ar brynawn olaf cyn y Pasg i ddweud ffarwel wrth Miss Thomas. Mae Miss Thomas wedi bod yn athrawes ac yn bennaeth amhrisiadwy o fewn yr ysgol. Rydym yn diolch o galon iddi am ei gwaith caled dros y blynyddoedd ac yn estyn pob dymuniad da iddi yn ei swydd newydd ym mis Ebrill.

Gair o ddiolch gan Sioned Hywel Thomas (Pennaeth Ysgol Abercaseg) Diolch o galon i ddisgyblion, rhieni, llywodraethwyr a holl staff Ysgol Abercaseg am eu cefnogaeth, cydweithrediad a'u caredigrwydd barhaus tra bum yn bennaeth Ysgol Abercaseg. Bydd gennyf lawer o atgofion hapus o'm nghyfnod yn yr ysgol a dymunaf bob llwyddiant i bawb eto yn y dyfodol.

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym
Marchnad Ogwen

11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi
Fitzpatrick's

**Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau
siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131**

Ysgol Dyffryn Ogwen

Arweinydd o fri

Mae darllenwyr y Llais yn gwybod yn iawn am ddoniau cerddorol Gwydion Rhys sydd yn ddisgybl ym mlwyddyn 8. Yn ddiweddar cafodd Gwydion y cyfle gwych i arwain Cerddorfa Gymreig y BBC. Profiad anhygoel i fachgen 12 oed! Gellir gweld y perfformiad ar dudalen Facebook y gerddorfa! Mae’n werth ei weld!

Ysgoloriaeth

Llongyfarchiadau i Alys Haf o flwyddyn 13 sydd wedi ennill ysgoloriaeth i Brifysgol Aberystwyth. Bwriad Alys yw astudio’r Gyfraith. Dymunwn y gorau iddi.

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i’r canlynol a fydd yn cynrychioli’r ysgol yn Eisteddfod yr Urdd yn Fflint ddiwedd Mai – Gwydion Rhys ar yr unawd llinynnol, Elis Evans a Luned Elfyn gyda’r ymgom, y Parti Bechgyn a’r Côr Cerdd Dant.



Gwydion Rhys



Elis Evans a Luned Elfyn

Medal y Dysgwr

Am yr ail flwyddyn yn olynol mae Hannah Cook o flwyddyn 11 wedi cyrraedd rownd derfynol Medal y Dysgwr yn Eisteddfod yr Urdd. Bu Hannah yng ngwersyll yr Urdd yng Nglan Llyn yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau a chystadlaethau cyn cael ei dewis i fod yn y tri olaf. Bydd y rownd derfynol yn digwydd yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Fflint ddiwedd Mai. O gofio fod Hannah wedi byw yn Banbury yn Swydd Rhydychen tan blwyddyn 8 mae ei champ i ddod yn gwbl rhugl yn y Gymraeg yn anhygoel

Celf a Chrefft

Gwaith Lluniadau 2D Bl. 10 a dan 19 oed
1af Ceri Hulme

Gwaith Lluniadau 2D Bl.7, 8 a 9 A.A.
1af Ithel Temple Morris

Gwaith Creadigol 2D Bl. 7, 8 a 9 A.A.
1af Ithel Temple Morris

Gwaith Creadigol 3D Bl. 7,8 a 9 A.A.
1af Ithel Temple Morris

Argraffu/Addurno ar Ffabrig Bl. 7,8 a 9
zil Ithel Temple Morris

Argraffu/Addurno ar Ffabrig Bl. 10 a dan 19 oed
1af Alys Haf

Prosiect ‘Awyr Dywyll Eryri’

Bu disgyblion blwyddyn 7 ac Adran y Gymraeg yn cydweithio ar brosiect ‘Awyr Dywyll Eryri’ gyda’r Parc Cenedlaethol. Bwriad y cynllun yw gwarchod ardaloedd gyda amgylchfyd nos eithriadol, a bu’r

disgyblion yn gweithio ar gyfres o dasgau gyda swyddog addysg y parc gan ddisgrifio rhai o’r golygfeydd rhyfeddol a welir yn yr awyr uwch ein pennau.

Gwaith Elusenno

Diolch yn fawr am gefnogi sawl ymgyrch yn ystod y tymor diwethaf. Cefnogwyd sawl achos da gan yr ysgol, gan gynnwys Plant Mewn Angen, Achub y Plant, Ty Gobaith, Macmillan, TEAMS4U, RSPCA, Action Aid. Gwerthfawrogir gwaith caled a chefnogaeth disgyblion a rhieni.

Cwrs Sgïo

Aeth pymtheg o ddisgyblion o flynyddoedd 7 i 11 ar gwrs wythnos o sgïo i Bad Kleinkirchheim yn Awstria dros wyliau hanner tymor diwethaf. Cafwyd digonedd o eira a llwyddodd y disgyblion i gyd i gwblhau’r cwrs gan ddatblygu yn sgiwyr hyderus cyn diwedd yr wythnos.

Pêl-rwyd

Llongyfarchiadau i Elin Owen ac Alaw Môn Gilford ar gael eu dewis i garfan Datblygu Pêl-rwyd Gogledd Orllewin Cymru.

Pencampwriaeth Criced

Bu dau dîm o enethod dan 13eg blwyddyn 7 ac 8 a tri tîm dan 15eg yn cystadlu yn ddiweddar yn Mhencampwriaeth Criced Dando Gogledd Cymru yng Nglannau Dyfrdwy. Llongyfarchiadau mawr i’r timau. Daeth Ysgol Dyffryn Ogwen(2) blwyddyn 7 ac 8 yn Bencampwyr Gogledd Cymru a daeth Ysgol Dyffryn Ogwen(1) blwyddyn 7 ac 8 yn 3ydd yn y gystadleuaeth. Yn y gystadleuaeth dan 15 gorffennodd tîm Dyffryn Ogwen(2) yn ail yn y grŵp a tîm Dyffryn Ogwen(1) yn drydydd yn y grŵp. Bowlio a batio gwych genod!



‘Chwalfa’

Mae’r ysgol yn falch iawn o’n disgyblion a fu’n cymryd rhan mewn perfformiadau Chwalfa yn Pontio yn ddiweddar. Bu criw o ddisgyblion o’r ysgol yn gweld un o’r perfformiadau ac mewn sgwrs gyda’r cynhyrchydd cyn y perfformiad. Cynhaliodd y Theatr Genedlaethol weithdy sgriptio gydag Aled Jones Williams yn yr ysgol hefyd yn ystod y cyfnod yma.

Athletau dan dô Gwynedd
Mae Beca Nia wedi ennill gwobr merch orau dan 15 ar ôl iddi ennill tair cystadleuaeth a dod yn ail yn y bedwerydd cystadleuaeth yng nghystadleuaeth Athletau Dan-dô Gwynedd a Môn ym mis Mawrth.

Llongyfarchiadau i Beca Nia, Sophie Ellis, Sophie Jeffreys a Natalie Owen am gynrychioli Eryri yn Athletau Dan-dô Cymru yn ddiweddar. Daeth tîm genethod dan 13 yn gyntaf a'r tîm dan 15 yn ail. Bydd Sophie a Natalie yn mynd ymlaen i gynrychioli Cymru ym Manceinion ym mhencampwriaeth Athletau Dan-dô Prydain. Da iawn chi genod!



Sophie Jeffreys a Natalie Owen

Rygbi
Cwpan Eryri dan 15 - Rownd 8 olaf
Ysgol Dyffryn Ogwen 14 -10 Ysgol Dyffryn Conwy. Ceisiau gan Kieran Briggs a Matthew Buchanan. Dau drosiad gan Ben Williams,

Rownd Gyn-derfynol
Ysgol Dyffryn Ogwen 17 – 10 Ysgol Glan y Môr, Pwllheli. Ceisiau gan Kieran Briggs Mathew Buchanan a Shaun Roberts. Un trosiad gan Ben Williams.

Bydd y rownd derfynol yn erbyn Ysgol David Hughes yng Nghlwb Rygbi Caernarfon bnawn Mercher, Ebrill 13eg.

Rygbi Gogledd Cymru dan 16
Mae Mathew Buchanan a Shaun Thomas wedi cynrychioli Rygbi Gogledd Cymru dan 16 mewn nifer o gemau rygbi yn ddiweddar gan gynnwys Gleision Caerdydd, Scarlets, Gweilch a Dreigiau Casnewydd Gwent.

Rygbi Gogledd Cymru Gorllewin dan 15
Llongyfarchiadau i Mathew Buchanan, Sion Davies, Cai Griffiths, Gruffydd Roberts, Ben Williams a Dafydd Glyn Williams am chwarae i Rygbi Gogledd Cymru Gorllewin yn erbyn Mynydd Mawr a Dinefwr (ardal Carwyn James a Barry John) ac yn erbyn Pontypridd yn ddiweddar.
Pob lwc i Mathew Buchanan, Ben Williams a Shaun Thomas. Bydd y tri o hogia Pesda yn mynd i'r Eidal i dwnament gyda RGC dan 16 dros wyliau'r Pasg.

pwysy'ncofio

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau 1969-1971

1969
04/1969: Ymgyrch Lyfrau Ysgol Dyffryn Ogwen: Dod yn gyntaf drwy Gymru a churo Ysgol Fron-deg, Pwllheli, a ddaethai'n gyntaf ers oddeutu 12 mlynedd. Gwerthwyd 2436 o lyfrau a recordiau Cymraeg, gwerth £940.

05/1969: Codwyd £296 tuag at Gymorth Cristnogol yn yr ardal.

22/05/1969: Y Cyngor Dinesig yn penderfynu rhoi llyfrau rhent dwyieithog (erbyn 1971-72) i bawb oedd yn byw mewn tai cyngor.

Mehefin 1969: Dathlu Canmlwyddiant Capel y Gerlan. Cyhoeddwyd llyfryn a ysgrifennwyd gan Emyr Hywel Owen.

17/07/1969: Y Cyngor Dinesig yn prynu dau arwydd: 'Croeso – Bethesda – Welcome'

17/07/1969: Costau goleuadau sodiwm i'w gosod yn y cylch: 6 lamp newydd yng Nglanogwen: £116; 12 lamp rhwng Lôn Pab a Coetmor Cottage: £259; 6 lamp rhwng Lôn Pab a Rhos y Coed: £130.

24/07/1969: Carnifál cyntaf y Gerlan. Gwnaethpwyd £115 o elw.

Hydref 1969: Ffyrnigrwydd ar gae pêl-droed Bethesda. Dim ond un plisman, torf ar y cae chwarae, y reffarî (Terry Hewitt o Benarlâg) yn cael ei daro. Y Rhyl: 2 Bethesda: 2.

Hydref 1969: Agor siop Gwasanaeth Gwirfoddol Rhyngwladol (yr IVS) yn 10 Stryd Fawr, Bethesda, gan Meryl Williams, 100 Ffordd Carneddi – Miss Banc Midland 1969.

28/11/1969: Agor Cartref yr Henoed, Plas Ogwen, gan yr Henadur Ffowc Williams, Cadeirydd Cyngor Sir Gwynedd. Dechreuwyd y gwaith 18 mis yn ôl a symudwyd y preswylwyr cyntaf i'r Cartref yn Rhagfyr 1969. Costiodd y Cartref £80,000 i'w adeiladu a byddai 12 o staff yn gweithio yno.

1970
01/1970: Y Cyngor yn penderfynu gosod chwe golau sodiwm rhwng Sgwâr Rachub a phen Ffordd Tanybwllch.

03/1970: Is-bwyllgor o Gymdeithas Ddiwylliadol Dyffryn Ogwen yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor Dinesig ar enwau strydoedd yr ardal.

03/1970: Y Cyngor Dinesig yn penderfynu

ailenwi stad Cae Ifan Gymro (Carneddi) yn Tan y Gaer.

03/1970: Y ddau dŷ y drws nesaf i Ysgol Pont-tŵr yn cael eu troi'n 'gwt dringo' gan Glwb Dringo Achille Ratti, clwb o Loegr yn perthyn i'r Pabyddion.

04/1970: Swyddfa'r Bwrdd Nwy yn Rhes Ogwen yn cau.

05/1970: Y Cyngor yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynllun i lefelu tomennydd Chwarel Pantdreiniog, a gwthio'r rwbel llechi yn ôl i'r twll.

11/05/1970 (nos Lun): Cau Capel Saron (A), Ty'n-y-Maes. Codwyd yn 1860 ar gost o £450.

Mehefin 1970: Penderfynwyd tynnu'r Aelwyd (neu'r Clwb Unedig) i lawr.

05/07/1970: Eryl Pardoe, mab Ronald Pardoe, Prifathro Ysgol Dyffryn Ogwen, yn cael ei ladd mewn damwain ddringo yn Chilliwack, British Columbia, Canada.
Gorffennaf 1970: Gwrthwynebiadau o ddau gyfeiriad i'r cynlluniau i glirio tomennydd Pantdreiniog.

1971
03/1971: Caradog Prichard yn traddodi ei ddarlith 'Y Rhai Addfwyn: Atgofion Lleol am Ardal Bethesda' yng Nghapel Jerusalem. (Darlith Flynyddol Llyfrgell Bethesda). Cyhoeddwyd y ddarlith yn llyfryn yn 1971. Hon hon y ddarlith gyntaf a draddodwyd yn y gyfres.

Cyfarfod anrhegu Ronald Pardoe ar ei ymddeoliad. Rhannwyd yr achlysur gan ddau ymddeoliad eithriadol o nodedig: y Dirprwy Brifathro, Mr Lewis Hughes, a dreuliasai 40 o flynyddoedd yn bennaeth yr Adran Fathemateg yn yr ysgol, a Cecil McCarter a fuasai'n dysgu Daearyddiaeth ac yna Gwaith Coed dros gyfnod o 39 o flynyddoedd. Ar ben hynny, 'roedd y ddau olaf hyn hefyd yn gyn-ddisgyblion!
Penodi Frank Rhys Jones yn brifathro Ysgol Dyffryn Ogwen. Bu yno tan 1979.
Eisteddfod Genedlaethol Bangor a'r Cylch ym Mharc y Penrhyn.

26/09/1971: Traddodwyd y bregeth olaf yng Nghapel Salem (A), Carneddi. Gweithwyr y Cyngor Sir (nifer ohonynt yn ddynion lleol) yn atgyweirio Pont Coetmor (am ei bod mewn cyflwr a ystyrid yn beryglus i drafnidiaeth fod yn ei defnyddio). *I'w barhau*

Stondin gig ‘Oinc Oink’

Fel mae enw unigryw'r Stondin yma yn awgrymu - cig moch sydd ar werth! Nid unrhyw gig moch chwaith, ond cig o foch Cymreig lleol sydd wedi ennill gwobrau yn y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd! Rydan ni yn ffodus iawn i gael Ela a'i chownter cig o safon yn y Farchnad bob mis. Yn ogystal â chig moch, mae Ela yn gwerthu pob math o ddanteithion wedi eu gwneud gyda chig moch. Gallwch hefyd flasuo ei selsig a bacwn wedi eu coginio yn y fan a'r lle mewn rôl fara. Blasus dros ben!

Newyddion y Farchnad

Croeso i Catrin Thomas o Lanberis sydd wedi ymuno â ni yn y Farchnad. Mae Catrin yn gwerthu nwyddau pren o bob lliw a llun.

Mae ganddi anrhegion addas i wahanol achlysuron megis priodas, genedigaeth, neu nwyddau i'r tŷ. Gall Catrin roi enw/ neges o'ch dewis ar y nwyddau os oes angen. Croeso atom ni Catrin.

Mae lle i un neu ddwy o Stondinau bwyd erbyn hyn, ond rhaid gwerthu nwyddau gwahanol i'r hyn sydd yn y Farchnad eisoes. Mae Stondin gwerthu mêl yn un enghraifft.

Cofiwch am y Farchnad Nos – sef nos Fercher, Ebrill 20fed o 5 – 8 o'r gloch yn Neuadd Ogwen. Mae'r Stondin Elusen yng ngofal Neville Hughes yn gwerthu ei jam cartref. (Bydd Marchnad Nos arall Tachwedd 23ain)

Mae Marchnad mis Mai ar yr ail ddydd Sadwrn - sef y 14eg yn Neuadd Ogwen o 9.30 - 1.30. Mae'r Stondin Elusen yng ngofal yr NSPCC. Mae'r Stondin 'Un Tro' ar gael mis Mai, Awst, Medi a Hydref. Os ydych eisiau llogi'r Stondin, cysylltwch â'r ysgrifennydd.

Mae gwybodaeth gyfredol am y Farchnad ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk ar Facebook a Twitter.

Croeso cynnes



Ela Roberts a Stondin Oinc Oink

CHWILAIR

LLEFYDD YN SIR FFLINT

Yn y chwilair mis yma mae enw deuddeg lle yn **SIR FFLINT** yn ymddangos. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

A	A	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I
S	V	S	H	E	I	M	G	V	H	M	D	W	H	U	Z	M	X	V	A
D	D	N	A	Y	P	A	R	L	W	R	D	U	P	P	A	U	Q	U	S
O	F	C	R	P	R	Y	Q	Z	G	R	H	C	E	U	M	W	N	O	Y
R	B	I	E	A	S	H	Z	U	T	F	D	X	N	U	P	W	R	W	H
C	Q	R	H	I	W	E	O	H	O	Y	E	E	A	G	E	O	M	Y	H
E	P	T	Y	T	C	C	B	S	B	C	U	U	R	J	P	L	T	O	M
I	V	V	D	C	C	O	B	B	E	F	R	F	L	O	G	J	V	R	I
I	R	N	R	X	H	G	N	I	M	S	H	T	A	T	O	S	K	G	O
P	W	O	R	C	M	D	O	N	K	C	M	B	G	O	R	D	C	N	X
V	R	L	Y	H	S	T	Y	I	A	M	R	O	E	F	Y	Y	J	O	D
Z	N	A	H	B	C	W	O	N	F	H	S	C	R	N	R	A	I	N	X
N	E	T	I	S	L	X	J	J	M	I	B	W	W	T	E	X	M	N	D
X	W	D	K	A	F	U	P	C	Q	Y	E	A	O	I	L	F	E	Y	R
Z	N	E	Q	L	R	O	C	T	D	G	L	G	W	S	L	Z	E	F	B
E	O	O	A	G	J	K	J	C	L	E	N	L	S	R	V	O	G	F	J
P	F	C	W	S	P	G	S	O	R	W	J	J	Q	Y	U	L	F	S	V
T	A	X	E	E	U	G	H	T	S	L	Z	E	A	F	X	I	W	T	Z
H	K	V	A	A	G	B	N	K	A	D	S	I	K	O	G	D	H	B	S
I	U	R	O	M	X	A	G	X	R	A	E	E	K	K	D	A	N	T	O

Atebion gydag enw a chyfeiriad i **Andre Lomozik**, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 3 Mai. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Wel dyna ni wedi darhod gyda chwaraeon ac athletau, a dod yn ôl i'r hen Gymru annwyl, gydag enwau deuddeg lle yn sir Fflint, rydym wedi bod yn sir Fôn a sir Gaernarfon, efallai awn i lawr am y de y mis nesaf. Gobeithio cewch hwyl ar y daith o gwmpas y sir. Diolch i bawb sydd yn rhoi cynnig ar y chwilair o fis i fis, ac i'r rhai ofnadwy o dwt fydd yn rhoi'r atebion yn trefn y wyddor. Dyma atebion Mawrth: Decathlon; Naid Belyn; Naid Driphlyg; pentathlon; Ras Ffos a Pherth; Ras Gerdded; Ras Glwydi; Rhedeg Ffordd; Sbrint; Taflu'r Disgen; Taflu'r Gwaywffon; Taflu'r Morthwyl. Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir: Mair Jones, Ffordd Bangor; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Myfanwy Jones, Gaerwen; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Doris Shaw, Bangor; Marilyn Jones, Glanffrydlas; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Rosemary Williams, Tregarth; Elizabeth Buckley, Tregarth; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Wendy Eccles, Rynys, Llanllechid. Enillydd Mawrth oedd: Myfanwy Jones, Tan Rhiw, Stryd Hiracl, Gaerwen, Ynys Môn LL60 6BL.